



Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA)

Gweithdrefnau a Rheolau Disgyblu 2024

Mai 2024

Cynnwys

Adran 1 - Cyflwyniad	3
1.0 CGA a'i rôl wrth reoleiddio'r gweithlu addysg yng Nghymru	3
2.0 Manylion cyswllt allweddol	5
Adran 2 - Gweithdrefnau a Rheolau Disgyblu 2024.....	6
1.0 Cyflwyniad	6
2.0 Ymchwilio i atgyfeiriadau	11
3.0 Pwyllgor Ymchwilio.....	13
4.0 Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer.....	18
5.0 Gorchymyn Atal Dros Dro Interim (GADDI).....	34
Atodiad - Cyfansoddiad a chyfarfodydd.....	41

Adran 1 - Cyflwyniad

1.0 CGA a'i rôl wrth reoleiddio'r gweithlu addysg yng Nghymru

Daeth Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) i rym ar 1 Ebrill 2015 yn dilyn ad-drefnu Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Ef yw'r corff proffesiynol hunanreoleiddiol statudol ar gyfer ymarferwyr addysg yng Nghymru.

Nodau CGA yw:

- cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu yng Nghymru
- cynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymhlith athrawon a phersonau sy'n cefnogi addysgu a dysgu yng Nghymru
- diogelu ym mudd dysgwyr, rhieni/gwarcheidwaid, a'r cyhoedd, a chynnal hyder y cyhoedd yn y gweithlu addysg

O dan Reoliadau 18 a 19 o *Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015*, Rheoliadau 18A a 19A o *Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2016*, Rheoliadau 4, 6 a 7 o *Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016*, Rheoliadau 4, 5, 7, ac 8 o *Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categoriâu Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2023*, a Rheoliadau 3 a 4 (*Categoriâu Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2024* rhaid i bob:

- athro cymwysedig sy'n cyflawni gwaith penodedig athro mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir yng Nghymru*
- gweithiwr cymorth dysgu ysgol sy'n cefnogi'r gwasanaethau a nodir dan Reol 18A(2), fel y'i diwygiwyd o'r Rheoliadau mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir yng Nghymru
- athro ysgol annibynnol sy'n darparu (neu'n dymuno darparu) gwasanaethau athro ysgol annibynnol mewn, neu ar gyfer ysgol annibynnol yng Nghymru
- gweithiwr cymorth dysgu ysgol annibynnol sy'n cefnogi (neu'n dymuno cefnogi) gwasanaethau athro ysgol annibynnol mewn, neu ar gyfer ysgol annibynnol yng Nghymru
- person sy'n darparu addysg mewn neu ar ran sefydliad addysg bellach yng Nghymru (yn
- ddarostyngedig i'r eithriadau a nodir o dan Reoliad 19(2) o'r Rheoliadau)*
- gweithiwr cymorth dysgu addysg bellach sy'n darparu'r gwasanaethau a nodir yn adran 16(2) o *Ddeddf Addysg (Cymru) 2014* mewn neu ar ran sefydliad addysg bellach yng Nghymru
- person sy'n rheoli addysgu a dysgu mewn neu ar ran sefydliad addysg bellach yng Nghymru

*mae gofyn cael lleifaswm cymhwyster ar gyfer y categorïau hyn. Mae mwy o wybodaeth ar y wefan www.cga.cymru/cofrestru

- athro ysgol annibynnol arbennig ôl-16 sy'n darparu (neu'n dymuno darparu) gwasanaethau athro ysgol annibynnol arbennig ôl-16 mewn, neu ar gyfer ysgol annibynnol yng Nghymru
- gweithiwr cymorth dysgu ysgol annibynnol arbennig ôl-16 sy'n cefnogi (neu'n dymuno cefnogi) gwasanaethau athro ysgol annibynnol arbennig ôl-16 mewn, neu ar gyfer ysgol annibynnol yng Nghymru
- ymarferydd dysgu seiliedig ar waith sy'n darparu gwasanaethau i neu ar ran corff dysgu seiliedig ar waith (heblaw fel gwirfoddolwr, ac yn ddarostyngedig i'r eithriad a nodir o dan Reoliad 7(2))
- person sy'n darparu addysg bellach a hyfforddiant i oedolion ar gyfer darparwr addysg oedolion yn y gymuned*
- gweithiwr ieuencid sy'n darparu gwasanaethau datblygu ieuencid i neu ar ran cyflogwr perthnasol (heblaw fel gwirfoddolwr, ac yn ddarostyngedig i'r eithriad a nodir o dan Reoliad 4(2));
- gweithiwr cymorth ieuencid sy'n darparu gwasanaethau datblygu ieuencid i neu ar ran cyflogwr perthnasol (heblaw fel gwirfoddolwr, ac yn ddarostyngedig i'r eithriad a nodir o dan Reoliad 6(2));

fod wedi'u cofrestru gyda CGA.

O dan delerau Deddf Addysg (Cymru) 2014, fel y'i diwygiwyd, mae CGA yn gyfrifol am ymchwilio i a gwrandao ar achosion o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol a/neu achosion lle mae person cofrestredig wedi'i euogfarnu (ar unrhyw adeg) o drosedd berthnasol, neu os yw'n ymddangos bod person cofrestredig yn euog o hynny neu wedi'i euogfarnu o hynny. O 1 Ebrill 2021, ac yn unol â Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchymynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2021, mae gan CGA bwerau Gorchymyn Atal Dros Dro Interim hefyd.

Caiff pob atgyfeiriad mae CGA yn ei dderbyn ei ystyried, ei ymchwilio a'i glywed er budd y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys diogelu'r cyhoedd, cynnal hyder y cyhoedd yn y gweithlu addysg a datgan a chynnal safonau priodol o ymddygiad a chymhwysedd.

Nodir pwerau CGA yn y materion hyn ymhellach o dan Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015, fel y'i diwygiwyd.

Adolygir y Gweithdrefnau a Rheolau Disgyblu yn barhaus a chânt eu diweddarau pan fydd CGA o'r farn bod hynny'n briodol.

Caiff personau cofrestredig sy'n destun gweithrediadau o fewn y Rheolau hyn gyflwyno ffurflenni, dogfennau a sylwadau ysgrifenedig i CGA yn Gymraeg neu Saesneg.

Os bydd unrhyw wrthdaro neu anghysondeb ymddangosiadol rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg y ddogfen hon, ymdrinnir â'r fersiynau Cymraeg a Saesneg fel fersiynau cyfartal.

*mae gofyn cael lleifaswm cymhwyster ar gyfer y categorïau hyn. Mae mwy o wybodaeth ar y wefan www.cga.cymru/cofrestru

2.0 Manylion cyswllt allweddol

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r gweithdrefnau hyn at:

Cyswllt

Y Tîm Priodoldeb i Ymarfer

Cyfeiriad

9^{fed} Llawr, Eastgate House, 35-43 Ffordd Casnewydd, Caerdydd, CF24 0AB.

Ffôn

029 2046 0099

E-bost

priodoldebiymarfer@cga.cymru

Adran 2 - Gweithdrefnau a Rheolau Disgyblu 2024

1.0 Cyflwyniad

Cyflwyniad, enwi a darpariaethau trosiannol

1- (1) Mae Cyngor y Gweithlu Addysg wrth arfer y pwerau a drosglwyddwyd iddo gan:

- (a) *Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015*, fel y'i diwygiwyd; a
- (b) *Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchymynion Atal Dros Dro Interim (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2021*; a
- (c) phob pŵer arall sy'n ei alluogi i'r perwyl hwnnw o dan *Ddeddf Addysg (Cymru) 2014*, fel y'i diwygiwyd,

drwy hyn yn cyflwyno'r Gweithdrefnau a'r Rheolau canlynol, y cyfeirir atynt fel *Gweithdrefnau a Rheolau Disgyblu 2024*, a gymeradwywyd ac a ddaeth i rym ar 9 Mai 2024.

- (2) Caiff *Gweithdrefnau a Rheolau Disgyblu 2023* drwy hyn eu diddymu, ond byddant yn parhau i fod yn berthnasol i wrandawiadau y gwrandawyd arnynt yn rhannol ar 9 Mai 2024, neu mewn perthynas ag achosion yr anfonwyd y Rhybudd Gweithrediadau perthnasol at y person cofrestredig yn eu cylch cyn 9 Mai 2024.
- (3) Ac eithrio fel y darperir ar eu cyfer ym mharagraff (2), *Gweithdrefnau a Rheolau Disgyblu 2024* fydd yn berthnasol.

Dehongli

2- (1) Yn y Gweithdrefnau a'r Rheolau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

ystyr 'y Ddeddf' yw *Deddf Addysg (Cymru) 2014*, ac unrhyw ddiwygiadau dilynol iddi;

ystyr 'honiad' yw honiad y gallai person cofrestredig fod yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol neu ei fod wedi ei euogfarnu (ar unrhyw adeg) o drosedd berthnasol;

ystyr 'asiant' yw un person (yr asiant) sy'n gwneud trefniadau i berson cofrestredig ddarparu gwasanaethau perthnasol ar gais, neu gyda chaniatâd, cyflogwr perthnasol (boed hynny drwy gontract ai peidio). Gallai asiantaeth gyflenwi breifat gael ei chynnwys yn nodweddiadol o dan gategori asiant,

a rhaid dehongli 'asiant presennol' yn unol â hynny;

ystyr 'achos i'w ateb' yw bod tebygrwydd realistig ym marn Pwyllgor Ymchwilio y byddai Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer yn canfod ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol a/neu euogfarn o drosedd berthnasol;

ystyr 'categoriâu cofrestru' yw 'athro ysgol', 'gweithiwr cymorth dysgu ysgol', 'athro addysg bellach', 'gweithiwr cymorth dysgu addysg bellach', fel y'u diffinnir gan Atodlen 2 i'r Ddeddf, 'gweithiwr ieuencid', 'gweithiwr cymorth ieuencid' ac 'ymarferydd dysgu seiliedig ar waith' fel y'u diffinnir gan Ran 2 i Orchymyn 2016, 'athro ysgol annibynnol', 'athro ysgol annibynnol arbennig ôl-16', 'gweithiwr cymorth dysgu ysgol annibynnol', 'gweithiwr cymorth dysgu ysgol annibynnol arbennig ôl-16', fel diffinwyd gan Rhan 6 Gorchymyn 2023, ac 'ymarferydd addysg oedolion' a 'pennaeth neu uwch arweinydd addysg bellach' fel diffiniwyd gan baragraff chwech Gorchymyn 2024;

ystyr 'plentyn' (mewn perthynas â 'Phlant a thystion sy'n agored i niwed') yw person nad yw wedi cyrraedd 18 oed;

ystyr 'Cod Ymarfer' yw'r cod ymarfer sydd wedi'i baratoi a'i gyhoeddi o dan adran 24 o'r Ddeddf;

ystyr 'y Pwyllgor' yw, mewn perthynas ag Adran 2 o'r Gweithdrefnau a'r Rheolau hyn, y Pwyllgor Ymchwilio (Rhan 3.0), y Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer (Rhan 4.0), y Pwyllgor Gorchymyn Atal Dros Dro Interim (Rhan 5.0) a'r Atodiad;

ystyr 'CGA' yw Cyngor y Gweithlu Addysg;

ystyr 'gorchymyn disgyblu' mewn perthynas â pherson cofrestredig yng Nghymru yw 'cerydd', 'gorchymyn cofrestru amodol', 'gorchymyn atal (gyda neu heb amodau)' neu 'orchymyn gwahardd' o fewn ystyr adran 27 o'r Ddeddf;

ystyr y 'swyddog a awdurdodir yn briodol' yw'r person a benodir gan Brif Weithredwr Cyngor y Gweithlu Addysg i weithredu ar ei ran;

ystyr y 'GDG' yw'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd;

ystyr 'cyflogwr' yw person sy'n cyflogi neu'n cyfarwyddo person cofrestredig i ddarparu gwasanaethau perthnasol,

a rhaid dehongli 'cyflogwr presennol' ac 'wedi'i gyflogi' yn unol â hynny;

ystyr 'ffeithiau'r achos' yw manylion yr honiad o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol a/neu euogfarn o drosedd berthnasol;

ystyr 'Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer' yw Pwyllgor a sefydlwyd o dan Reoliad 22 o'r Rheoliadau;

ystyr 'cyn-berson cofrestredig' yw person sydd wedi'i dynnu oddi ar y gofrestr a gedwir gan CGA yn unol â Gorchymyn 2021;

ystyr 'gwrandawriad' yw sefyllfa lle bydd Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer yn gwrandao ar achos o weithrediadau disgyblu yn erbyn person cofrestredig, neu wrandawriad o dan Reoliad 37, 38, 39, 40 neu 41 o'r Rheoliadau;

ystyr 'gorchymyn atal dros dro interim' yw mesur sy'n tynnu person cofrestredig oddi ar y gofrestr dros dro tra bod ymchwiliad a gwrandawriad disgyblu yn yr arfaeth;

ystyr 'Pwyllgor Gorchymyn Atal Dros Dro Interim' yw Pwyllgor a sefydlir yn unol â Gorchymyn 2021;

ystyr 'Pwyllgor Ymchwilio' yw Pwyllgor a sefydlir o dan Reoliad 20 o'r Rheoliadau;

ystyr 'aelod lleyg' yw aelod o'r Pwyllgor nad yw:

- (a) yn berson cofrestredig;
- (b) wedi ei gyflogi neu ei gyfarwyddo i ddarparu gwasanaethau perthnasol yn y cyfnod o bum mlynedd sy'n dod i ben ar ddyddiad penodi'r person hwnnw i'r Pwyllgor;
- (c) wedi ei wahardd rhag ymgymryd â gweithgarwch a reoleiddir yn ymwneud â phlant (o fewn ystyr adran 3(2) o *Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(1)*);
- (d) yn destun gorchymyn disgyblu a wnaed o dan y Ddeddf ac yn rhinwedd y gorchymyn hwnnw mae'r person yn anghymwys i gofrestru; neu
- (e) wedi ei ddiarddel rhag gweithio mewn swydd sy'n cyfateb i gategori cofrestru.

ystyr 'GADDI' yw 'gorchymyn atal dros dro interim', a bydd yn cynnwys cyfeirio at orchymyn atal dros dro interim a gaiff ei ymestyn, neu ei ymestyn ymhellach;

ystyr 'mis' yw mis calendr;

ystyr 'gorchymyn' yw gorchymyn disgyblu o fewn ystyr paragraff 2 o adran 27 y Ddeddf;

ystyr 'Gorchymyn 2016' yw *Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuencid, Gweithwyr Cymorth Ieuencid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016*;

ystyr 'Gorchymyn 2021' yw *Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchymynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2021*;

ystyr 'Gorchymyn 2023' yw *Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categoriâu Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2023*

ystyr 'Gorchymyn 2024' yw *Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categoriâu Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2024*

ystyr 'swyddog cyflwyno' yw'r person a benodir gan CGA i gyflwyno achos CGA gerbron Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer;

ystyr 'asiant blaenorol' yw asiant person cofrestredig yn ystod y cyfnod y mae'r honiad yn perthyn iddo;

ystyr 'cyflogwr blaenorol' yw cyflogwr person cofrestredig yn ystod y cyfnod y mae'r honiad yn perthyn iddo;

ystyr 'cofrestru dros dro' yw'r statws cofrestru y mae person yn gymwys amdano, os yw'r person yn bodloni un neu fwy o'r amodau canlynol am y tro, sef:

- (a) bod y person yn athro cymwysedig sydd heb gwblhau cyfnod sefydlu eto;
- (b) bod y person wedi ei gofrestru gan CGA yng nghategori cofrestru athro ysgol yn unol â Rheoliadau Cynghorau Addysgu Cyffredinol (Cofrestru Athrawon Dros Dro o Wladwriaethau Ewropeaidd Perthnasol) (Cymru a Lloegr) 2009;
- (c) bod y person yn gweithio tuag at gael un o'r cymwysterau a nodir fel cymwysterau gweithiwr ieuencid fel nodir yn Rhan 1 Atodlen 1 Gorchymyn 2023;
- (d) bod y person yn gweithio tuag at gael un o'r cymwysterau a nodir fel cymwysterau gweithiwr cymorth ieuencid fel nodir yn Rhan 1 Atodlen 1 Gorchymyn 2023;

ystyr 'atgyfeiriad' yw datgeliad troseddol, achos disgyblu gan gyflogwr neu asiant, neu gŵyn neu wybodaeth o unrhyw ffynhonnell arall, sy'n ymwneud â pherson cofrestredig;

ystyr 'y Gofrestr' yw'r Gofrestr Ymarferwyr Addysg y mae'n ofynnol i CGA ei sefydlu a'i chynnal yn unol ag adran (9)1 o'r Ddeddf, fel y nodir yn y Rheoliadau,

ac ystyr 'cofrestru' yw cofrestru llawn neu dros dro ar y Gofrestr, mewn un categori cofrestru neu fwy. Mae cofrestru 'dros dro' yn berthnasol i'r categorïau athro ysgol, gweithiwr ieuencid, a gweithiwr cymorth ieuencid ;

ystyr 'person cofrestredig' yw:

- (a) person sydd wedi'i gofrestru am y tro o dan Adran 9 o'r Ddeddf, gan gynnwys y rheiny sydd wedi'u cofrestru dros dro;
- (b) person a oedd wedi'i gofrestru ar adeg unrhyw ymddygiad neu drosedd honedig (boed o dan Adran 9 o'r Ddeddf, neu o dan Adran 3 o Ddeddf 1998); neu
- (c) berson sydd wedi gwneud cais i gael ei gofrestru;

ystyr 'aelod cofrestredig' yw aelod o'r Pwyllgor sydd:

- (a) yn berson sydd wedi cofrestru yn o leiaf un o'r categorïau cofrestru; ac sydd
- (b) wedi ei gyflogi, neu ei gyfarwyddo mewn modd arall heblaw drwy gontract cyflogaeth, yn o leiaf un o'r swyddi a ddisgrifir yn y categorïau cofrestru ar ddyddiad penodi'r aelod hwnnw sy'n berson cofrestredig i'r Pwyllgor,

ac mae'n rhaid i aelod cofrestredig sy'n rhoi'r gorau i fod yn berson cofrestredig neu'n rhoi'r gorau i gael ei gyflogi neu ei gyfarwyddo yn un o'r swyddi a ddisgrifir yn y categorïau cofrestru roi'r gorau i fod yn aelod cofrestredig;

ystyr 'y Rheoliadau' yw *Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015* ac unrhyw ddiwygiadau dilynol a wneir i'r rheoliadau hynny;

ystyr 'cyflogwr perthnasol' yw person sy'n cyflogi neu'n cyfarwyddo mewn modd arall bersonau cofrestredig i ddarparu gwasanaethau perthnasol yng Nghymru;

ystyr 'trosedd berthnasol', yn achos euogfarn yn y Deyrnas Unedig, yw trosedd heblaw un nad oes iddi unrhyw berthnasedd materol i briodoldeb y person i fod yn berson cofrestredig

yn y categori cofrestru perthnasol. Yn achos euogfarn mewn man arall, trosedd yw hon a fyddai, pe câi ei chyflawni yng Nghymru neu Loegr, yn drosedd o'r fath a grybwyllir yn Atodlen 27(1) (a) i'r Ddeddf;

ystyr 'gwasanaethau perthnasol' yw gwasanaethau sydd ond yn gallu cael eu darparu gan berson cofrestredig;

ystyr 'anghyhwysedd proffesiynol difrifol' yw ymddygiad sy'n dangos lefel o gymhwysedd sy'n is o lawer na'r hyn a ddisgwylir gan berson cofrestredig, gan ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol, o fewn ystyr Rheoliad 3 o'r Rheoliadau, fel y'i diwygiwyd;

ystyr 'gwasanaethau' yw gwasanaethau a ddarperir i gyflogwr perthnasol yng Nghymru ac mae hyn yn cynnwys gwasanaethau proffesiynol a gwirfoddol;

ystyr 'ymddygiad proffesiynol annerbyniol' yw ymddygiad sy'n is na'r safon a ddisgwylir gan berson cofrestredig o fewn ystyr Rheoliad 3 o'r Rheoliadau;

ystyr 'tyst agored i niwed' yw person y mae tebygolrwydd yr effeithir yn andwyol ar ansawdd ei dystiolaeth mewn gwrandawriad. Gallai hyn gynnwys:

- (a) unrhyw dyst ag anhwylder meddwl (h.y. salwch meddwl, datblygiad meddwl araf neu anghyflawn, anhwylder seicopathig ac unrhyw anhwylder neu anabled meddwl arall);
- (b) unrhyw dyst y mae ganddo nam sylweddol mewn perthynas â deallusrwydd neu allu cymdeithasol;
- (c) unrhyw dyst ag anabledau corfforol y mae angen cymorth arno i roi dystiolaeth;
- (d) unrhyw dyst lle mae'r honiad yn erbyn y person cofrestredig o natur rywiol a lle mai'r tyst oedd y dioddefwr honedig;
- (e) unrhyw dyst sy'n cwyno'i fod wedi'i frawychu.

ystyr 'wythnos' yw wythnos galendr.

(2) Yn y Gweithdrefnau a'r Rheolau hyn, oni bai y nodir y bwriad i'r gwrthwyneb:

- (a) mae geiriau yn yr unigol yn cynnwys y lluosog, ac mae geiriau yn y lluosog yn cynnwys yr unigol ac mae enwau gwrywaidd yn gallu cyfeirio at wrywod a benywod;
- (b) mae is-baragraffau a pharagraffau wedi'u rhifo'n cyfeirio at y Rheol lle maent yn ymddangos;
- (c) mae rheolau wedi'u rhifo'n cyfeirio at reolau'r Gweithdrefnau a'r Rheolau hyn.

Cyhoeddi'r Gweithdrefnau a'r Rheolau

3- (1) Bydd y Gweithdrefnau a'r Rheolau hyn:

- (a) ar gael yn rhad ac am ddim ar gais i unrhyw berson cofrestredig, neu berson sydd wedi gwneud cais i gofrestru;
- (b) yn cael eu cyhoeddi ar wefan CGA;
- (c) yn cael eu hadolygu'n barhaus a'u diweddarau pan fydd hynny'n briodol.

2.0 Ymchwilio i atgyfeiriadau

Cam Cychwynnol

- 4- (1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) a Rheol 5, bydd CGA yn ymchwilio i'r holl atgyfeiriadau a dderbynnir lle honnir bod person cofrestredig yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu anghymhwysedd proffesiynol difrifol, a/neu wedi'i euogfarnu (ar unrhyw adeg) o drosedd berthnasol.
- (2) Bydd CGA bob amser yn asesu a ddylid gwneud atgyfeiriad i'r GDG ai peidio, ar sail y dystiolaeth a'r wybodaeth a dderbynnir ganddo, ac a oes awgrym o niwed, neu berygl niwed i blant neu oedolion agored i niwed.
- (3) At ddibenion y Rheolau hyn, y dyddiad y gwneir yr honiad fydd y dyddiad y caiff yr atgyfeiriad ei dderbyn gan CGA.
- (4) Rhaid i CGA ystyried unrhyw fethiant gan berson cofrestredig i gydymffurfio â Chod Ymarfer, a gyhoeddir gan CGA o dan Adran 24 o'r Ddeddf a Rheoliad 23 o'r Rheoliadau.

Penderfynu a ddylid ymchwilio i atgyfeiriad ai peidio

- 5- (1) Pan fydd CGA yn derbyn atgyfeiriad ar ffurf datgeliad troseddol, bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol:
 - (a) yn penderfynu o bosibl na ddylid ymchwilio i'r atgyfeiriad yn unol â Rheol 6, gan gyfeirio at restr o euogfarnau a sancsiynau troseddol eraill a gymeradwywyd gan CGA, y mae'n barnu nad ydynt yn gallu bod yn gyfystyr â honiad. Felly, ni fydd CGA yn cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r atgyfeiriad;
 - (b) pan na fydd is-baragraff (1)(a) yn berthnasol, yn cyflwyno'r atgyfeiriad i'r Pwyllgor Ymchwilio i ymchwilio iddo o dan Reol 6.
- (2) Pan fydd CGA yn derbyn atgyfeiriad gan berson ar wahân i'r cyflogwr neu'r asiant, gall y swyddog a awdurdodir yn briodol:
 - (a) benderfynu o bosibl na ddylid ymchwilio i'r gŵyn yn unol â Rheol 6, os:
 - (i) nad yw wedi'i hadrodd i gyflogwr neu asiant y person cofrestredig, ac os nad yw'r gweithdrefnau lleol ar gyfer datrys cwynion wedi'u dihybyddu.
 - (ii) yw'r swyddog a awdurdodir yn briodol, ar ôl cyfeirio at God Ymarfer CGA sydd mewn grym ar yr adeg honno, os oes un, o'r farn nad ystyrir bod y gŵyn yn gallu bod yn gyfystyr â honiad.

- (iii) yw'r un gŵyn eisoes wedi cael ei derbyn a'i therfynu gan CGA.
 - (iv) nad yw'r gŵyn yn ymwneud ag ymddygiad annerbyniol a/neu anghymhwysedd proffesiynol difrifol honedig y person cofrestredig.
- (b) peidio â chymryd unrhyw gamau pellach lle bydd is-baragraffau (2)(a)(i), a/neu (2)(a)(ii), a/neu (2)(a)(iii), a/neu 2(a)(iv), yn berthnasol.
- (c) pan nad yw'r atgyfeiriad yn dod o dan is-baragraff 2(a), ei gyflwyno i'r Pwyllgor Ymchwilio i'w ystyried o dan Reol 6, a holi cyflogwr neu asiant y person cofrestredig i ganfod:
- (i) a wnaed cwyn iddo ai peidio, ac os felly, beth yw natur y gŵyn; ac
 - (ii) a ymchwiliwyd i'r gŵyn ai peidio, ac os felly, beth yw canlyniad yr ymchwiliad hwnnw; neu
 - (iii) a fydd yn ymchwilio i'r gŵyn ai peidio, ac os felly, faint o amser y bydd angen ei gymryd ar gyfer yr ymchwiliad hwnnw.
- (3) Pan fydd CGA yn derbyn atgyfeiriad gan y cyflogwr neu'r asiant yn unol â'r gofynion darparu gwybodaeth a nodir yn adran 36 ac adran 37 o'r Ddeddf, a Rheoliad 45 a Rheoliad 46 o'r Rheoliadau, bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn cyflwyno'r atgyfeiriad i'r Pwyllgor Ymchwilio i ymchwilio iddo o dan Reol 6.
- (4) Pan dderbynnir atgyfeiriad o unrhyw ffynhonnell (er enghraifft, y GDG), bydd CGA neu ei swyddog a awdurdodir yn briodol yn ystyried a yw'r ymddygiad neu'r anghymhwysedd a gyfeirir yn gallu bod yn gyfystyr â honiad, gan gyfeirio at God Ymarfer CGA sydd mewn grym ar yr adeg honno, os oes un, cyn bwrw ymlaen o dan Reol 6.
- (5) Pan gaiff datgeliad troseddol ei derfynu o dan is-baragraff (1)(a), ni chaiff cyflogwr neu asiant presennol neu flaenorol y person cofrestredig, fel sy'n briodol, ei hysbysu o'r atgyfeiriad oni bai bod y person cofrestredig yn caniatáu hynny'n ysgrifenedig.
- (6) Pan gaiff cwyn ei therfynu o dan is-baragraff (2)(b), caiff y person cofrestredig y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn ei hysbysu o'r gŵyn, o ble y daeth a phenderfyniad CGA.
- (7) Pan fydd CGA yn derbyn tystiolaeth bellach mewn perthynas â datgeliad troseddol lle roedd y swyddog a awdurdodir yn briodol wedi penderfynu'n flaenorol peidio â chymryd camau pellach yn unol ag is-baragraff (1)(a), a lle bod y dystiolaeth ychwanegol, ynghyd â'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn flaenorol, ym marn y swyddog a awdurdodir yn briodol, yn gallu bod yn gyfystyr â honiad, gallai gyflwyno'r atgyfeiriad i Bwyllgor Ymchwilio yn unol â Rheol 6. Gallai'r dystiolaeth bellach hon gynnwys trosedd ychwanegol a gyflawnwyd gan y person cofrestredig.
- (8) Pan fydd CGA yn derbyn tystiolaeth bellach mewn perthynas ag atgyfeiriad ar ffurf cwyn lle roedd y swyddog a awdurdodir yn briodol wedi penderfynu'n flaenorol peidio â chymryd camau pellach o dan is-baragraff (2)(b), bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn gwneud ymholiadau yn unol ag is-baragraff 2(c), ac yn gwahodd y person cofrestredig i gynnig sylwadau arni. Os yw'r swyddog a awdurdodir yn briodol o'r farn bod y dystiolaeth

ychwanegol, ynghyd â'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn flaenorol, yn gallu bod yn gyfystyr â honiad, gallai gyflwyno'r atgyfeiriad i Bwyllgor Ymchwilio yn unol â Rheol 6.

3.0 Pwyllgor Ymchwilio

Rhybudd Ymchwilio

- 6- (1) Pan gaiff atgyfeiriad ei gyflwyno i Bwyllgor Ymchwilio i ymchwilio iddo, bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn anfon Rhybudd Ymchwilio at y person cofrestredig yn unol â pharagraff (2) drwy ddsbarthiad arbennig i'w gyfeiriad hysbys diwethaf fel y'i cofnodwyd ar y Gofrestr, neu'r fath gyfeiriad diweddaraf arall sy'n hysbys i CGA.
- (2) Bydd y Rhybudd Ymchwilio:
- (a) yn nodi'r honiad neu'r honiadau a gyfeiriwyd at y Pwyllgor, gan amgáu copi o'r wybodaeth a dderbyniwyd am y person cofrestredig;
 - (b) yn hysbysu'r person cofrestredig o ddyddiad cyfarfod y Pwyllgor Ymchwilio a fydd yn ystyried yr atgyfeiriad, ac yn nodi enwau aelodau'r Pwyllgor hwnnw;
 - (c) yn gwahodd y person cofrestredig i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â'r materion y cyfeirir atynt yn is-baragraff (2)(a), a darparu unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig y mae'r person cofrestredig yn dymuno ei chyflwyno, o fewn pedair wythnos i ddyddiad anfon y Rhybudd;
 - (d) yn cadarnhau, ar yr adeg ymateb, a yw'r person cofrestredig wedi'i gyflogi ai peidio ar hyn o bryd fel ymarferydd addysg a reoleiddir gan CGA, ac, os ydyw, enw a chyfeiriad y cyflogwr neu'r asiantaeth gyflenwi bresennol;
 - (e) yn holi a yw'r person cofrestredig yn credu y gallai gwrthdaro buddiannau godi mewn perthynas ag unrhyw aelod o'r Pwyllgor, ac os credir hynny, beth yw'r rheswm;
 - (f) yn atodi copi o'r Gweithdrefnau a'r Rheolau hyn.
- (3) Bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn anfon copi o'r Rhybudd Ymchwilio at gyflogwr neu asiant y person cofrestredig ar yr adeg pan ddigwyddodd yr atgyfeiriad yr ymchwilir iddo, ac at unrhyw gyflogwr neu asiant presennol.

Gweithrediadau Pwyllgor Ymchwilio

- 7- (1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) i (7) a 'Pleidleisio a gwneud penderfyniadau' (Atodiad), penderfynir ar y drefn yn ôl disgresiwn y Cadeirydd.
- (2) Cyn ystyried atgyfeiriad, bydd y Pwyllgor yn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol sydd ar gael, gan gynnwys unrhyw sylwadau ysgrifenedig a thystiolaeth a dderbyniwyd gan y person cofrestredig, ar gael i'r Pwyllgor Ymchwilio.
- (3) Wrth ymchwilio i atgyfeiriad, gallai Pwyllgor Ymchwilio, ar unrhyw adeg:
- (a) fynnu i ymholiadau pellach gael eu gwneud gan swyddog CGA;

- (b) gofyn am dystiolaeth / dogfennau pellach gan ffynhonnell yr atgyfeiriad, a chaiff copïau o unrhyw dystiolaeth / dogfennau a dderbynnir eu rhoi i'r person cofrestredig.
- (4) Bydd Pwyllgor Ymchwilio'n ystyried y dystiolaeth a ddarperir iddo, gan gynnwys unrhyw sylwadau ysgrifenedig a thystiolaeth a gyflwynwyd gan y person cofrestredig.
- (5) Gallai Pwyllgor Ymchwilio dorri yng nghanol ymchwilio i'r atgyfeiriad ar unrhyw adeg.
- (6) Bydd swyddog CGA sy'n gwneud ymholiadau pellach o dan baragraff (3) yn sgil cais gan Bwyllgor Ymchwilio yn darparu unrhyw wybodaeth a/neu dystiolaeth bellach a geir i'r Pwyllgor a'r person cofrestredig.
- (7) Cynhelir cyfarfodydd o'r Pwyllgor Ymchwilio'n breifat.

Penderfyniad Pwyllgor Ymchwilio

- 8- (1) Pan fydd Rhybudd Ymchwilio wedi'i gyhoeddi o dan Reol 6, gallai Pwyllgor Ymchwilio a sefydlir i ymchwilio i atgyfeiriad:
 - (a) benderfynu nad oes achos i'r person cofrestredig ei ateb; neu
 - (b) benderfynu bod achos i'r person cofrestredig ei ateb a chyflwyno'r atgyfeiriad i Bwyllgor Priodoldeb i Ymarfer fel sy'n briodol; neu
 - (c) benderfynu y dylid terfynu'r atgyfeiriad ar sail arall. Er enghraifft, oherwydd amgylchiadau personol eithriadol y person cofrestredig ar adeg penderfyniad y Pwyllgor. Fodd bynnag, ni fydd 'sail arall' o'r fath yn cynnwys unrhyw nam neu ddiffyg mewn unrhyw drefn y mae'n ofynnol i gyflogwr neu asiant neu unrhyw berson arall ei dilyn o dan delerau cyflogaeth neu gontract y person cofrestredig; neu
 - (d) dorri yng nghanol y gweithrediadau er mwyn i ymholiadau pellach gael eu gwneud o dan Reol 7(3), neu am gyngor cyfreithiol o dan Reol 7(5), cyn dod i benderfyniad terfynol o dan y Rheol hon;
 - (e) benderfynu y dylid cyflwyno'r atgyfeiriad, neu unrhyw ran ohono, i'r GDG.
- (2) Pan derfynir atgyfeiriad o dan baragraff (1), hysbysir y person cofrestredig a chyflogwr neu asiant presennol a/neu flaenorol y person cofrestredig, fel sy'n briodol, yn ysgrifenedig o benderfyniad y Pwyllgor Ymchwilio, gan gynnwys rhesymau, o fewn pythefnos wedi iddo ddod i'w benderfyniad.
- (3) Pan fydd toriad i ymchwiliad i atgyfeiriad yng nghanol y gweithrediadau o dan is-baragraff (1)(d), gallai'r atgyfeiriad gael ei gyflwyno i'r un Pwyllgor neu Bwyllgor sydd wedi'i sefydlu o'r newydd.
- (4) Gallai Pwyllgor a gynullir o dan y Rheol hon, mewn amgylchiadau eithriadol a chyn iddo ddod i'w benderfyniad terfynol, gyflwyno atgyfeiriad i Bwyllgor Ymchwilio sydd wedi'i sefydlu'n

wahanol pan ymddengys fod tor-reolau wedi bod mewn perthynas ag aelodaeth y Pwyllgor neu gyfiawnder naturiol (Atodiad).

- (5) Pan fydd Pwyllgor yn cyflwyno atgyfeiriad i Bwyllgor arall, bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn hysbysu'r partïon fel sy'n briodol.
- (6) Pan fydd CGA yn derbyn tystiolaeth bellach mewn perthynas ag atgyfeiriad lle roedd Pwyllgor Ymchwilio wedi penderfynu'n flaenorol nad oedd achos i'w ateb yn unol ag is-baragraff (1)(a), gallai'r swyddog a awdurdodir yn briodol gyflwyno'r atgyfeiriad i Bwyllgor Ymchwilio yn unol â Rheol 6. Gallai'r dystiolaeth bellach hon gynnwys trosedd a gyflawnwyd gan y person cofrestredig.

Cerydd Gwirfoddol a Gwaharddiad Gwirfoddol

- 9- (1) Pan fydd Pwyllgor Ymchwilio'n cyflwyno atgyfeiriad i Bwyllgor Priodoldeb i Ymarfer ar y sail bod gan berson cofrestredig achos i'w ateb, yn amodol ar baragraffau (2) a (3) isod, caiff swyddog a awdurdodir yn briodol wneud argymhelliad i Bwyllgor Priodoldeb i Ymarfer i benderfynu ar yr achos heb wrandawriad trwy Gerydd Gwirfoddol neu Waharddiad Gwirfoddol.
- (2) Dim ond lle bydd yr atgyfeiriad yn bodloni'r meini prawf gofynnol canlynol y gwneir argymhelliad am Gerydd Gwirfoddol neu Waharddiad Gwirfoddol i Bwyllgor Priodoldeb i Ymarfer, sef:
 - (a) bod y swyddog a awdurdodir yn briodol yn fodlon bod ffeithiau perthnasol a phriodol sy'n ymwneud â'r atgyfeiriad wedi cael eu casglu;
 - (b) bod y person cofrestredig yn cyfaddef yn llawn yr holl ffeithiau honedig yn eu herbyn, fel y'u nodir gan CGA; a
 - (c) bod y person cofrestredig wedi derbyn a llofnodi datganiad ffeithiau cytunedig; a
 - (d) bod y person cofrestredig yn derbyn bod ffeithiau addefedig yr honiad(au) yn eu herbyn yn gyfystyr ag ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol neu euogfarn o drosedd berthnasol, neu gyfuniad o'r rhain, fel y bo'n berthnasol; ac
 - (e) ym marn y swyddog a awdurdodir yn briodol, y gellir gwasanaethu buddiannau cyfiawnder a thegwch heb wrandawriad; ac
 - (f) y gellir cyflawni cyfrifoldebau CGA i ddiogelu buddiannau dysgwyr a'r cyhoedd, ac i gynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y gweithlu addysg, yn briodol gyda Cherydd Gwirfoddol neu Waharddiad Gwirfoddol, o ystyried ffeithiau'r atgyfeiriad penodol.
- (3) Os bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn ystyried bod gwahoddiad i gael Cerydd Gwirfoddol neu Waharddiad Gwirfoddol yn briodol, bydd:
 - (a) yn anfon y gwahoddiad drwy ddsbarthiad arbennig i gyfeiriad y person cofrestredig fel y'i cofnodwyd ar y Gofrestr, neu'r fath gyfeiriad diweddaraf arall sy'n hysbys i CGA gan nodi ai Cerydd Gwirfoddol neu Waharddiad Gwirfoddol a gynigir; ac

- (b) yn rhoi gwybod i'r person cofrestredig nad yw'n ofynnol iddo gytuno i Gerydd Gwirfoddol na Gwaharddiad Gwirfoddol (fel y bo'n berthnasol) ond y gellid gwneud argymhelliad o'r fath os yw'r meini prawf a nodir ym mharagraff (2) yn berthnasol;
 - (f) yn gwahodd y person cofrestredig i ymateb yn ysgrifenedig i'r cynnig am Gerydd Gwirfoddol neu Waharddiad Gwirfoddol, fel y bo'n berthnasol;
 - (g) yn rhoi gwybod i'r person cofrestredig y bydd effaith Cerydd Gwirfoddol yr un peth ag y byddai pe bai wedi cael ei osod gan Bwyllgor Priodoldeb i Ymarfer yn unol â Rheol 29;
 - (h) yn rhoi gwybod i'r person cofrestredig, yn achos Gwaharddiad Gwirfoddol:
 - (i) y bydd ei enw'n cael ei ddileu oddi ar y Gofrestr; ac
 - (ii) na chaiff wneud cais am gymhwystra i gael ei adfer i'r Gofrestr am gyfnod o 2 flynedd o leiaf o'r dyddiad y caiff enw'r person cofrestredig ei ddileu oddi ar y Gofrestr (neu'r fath gyfnod hirach a all gael ei bennu gan Bwyllgor Priodoldeb i Ymarfer); ac
 - (iii) ei fod wedi'i rwymo ym mhob ffordd arall gan delerau Gorchymyn Gwahardd, fel pe bai wedi cael ei osod gan Bwyllgor Priodoldeb i Ymarfer yn unol â Rheol 29; ac
 - (f) yn mynnu bod y person cofrestredig yn ymateb i'r gwahoddiad yn ysgrifenedig o fewn 21 diwrnod gwaith iddo gael ei gyflwyno.
- (4) Os nad yw'r person cofrestredig yn rhoi ei gydsyniad, neu os nad yw'n ymateb i'r gwahoddiad o fewn 21 diwrnod gwaith, caiff yr atgyfeiriad ei gyflwyno i Bwyllgor Priodoldeb i Ymarfer ar gyfer gwrandawriad yn unol â Rheol 11.
- (5) Os yw'r person cofrestredig yn rhoi eu cgydsyniad, ac os yw'r swyddog a awdurdodir yn briodol yn fodlon ar ymateb y person cofrestredig, bydd argymhelliad y swyddog a awdurdodir yn briodol am Gerydd Gwirfoddol neu Waharddiad Gwirfoddol, fel y bo'n berthnasol, yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Priodoldeb i Ymarfer yn unol â Rheol 10.
- (6) Lle bo paragraff 5 yn berthnasol, bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn anfon Rhybudd Cyfarfod yn unol â pharagraff (2) drwy ddsbarthiad arbennig i gyfeiriad hysbys diwethaf y person cofrestredig fel y'i cofnodwyd ar y Gofrestr, neu'r fath gyfeiriad diweddaraf arall sy'n hysbys i CGA, gan roi iddynt o leiaf 3 wythnos o rybudd o'r cyfarfod.
- (7) Bydd y Rhybudd Cyfarfod:
- (a) yn nodi dyddiad y cyfarfod ac enwau aelodau'r Pwyllgor;
 - (b) yn nodi'r honiadau a manylion yr honiadau yn erbyn y person cofrestredig;
 - (c) wedi atodi bwndel sy'n cynnwys:
 - (i) copi o'r datganiad ffeithiau cytunedig;

- (ii) cyfaddefiad y person cofrestredig bod y ffeithiau cytunedig yn gyfystyr ag ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol, a/neu euogfarn o drosedd berthnasol;
 - (iii) cydsyniad ysgrifenedig y person cofrestredig i Gerydd Gwirfoddol neu Waharddiad Gwirfoddol, fel y bo'n berthnasol.
- (d) yn cynnwys fel atodiad iddo gopi o'r Gweithdrefnau a'r Rheolau hyn.
- (8) Bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn anfon copi o'r Rhybudd Cyfarfod, fel y nodir ym mharagraff (7), at y cyflogwr neu'r asiant ar adeg yr ymddygiad honedig neu'r mater a arweiniodd at yr atgyfeiriad, ac at unrhyw gyflogwr neu asiant presennol.

Cyfarfod o Bwyllgor Priodoldeb i Ymarfer

- 10- (1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Rheol hon a Phleidleisio a gwneud penderfyniadau (Atodiad), caiff y drefn yn y cyfarfod ei phenderfynu yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd.
- (2) Cynhelir y cyfarfod o'r Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer yn breifat a bydd y Pwyllgor yn gwneud penderfyniad ar sail y deunydd ysgrifenedig yn unig heb i'r person cofrestredig fod yn bresennol.
- (3) Caiff y Pwyllgor ei gynghori gan ymgynghorydd cyfreithiol.
- (4) Ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod, gall y Pwyllgor benderfynu y dylai'r honiad gael ei ystyried mewn gwrandawriad, a hynny er bydd y cyhoedd a/neu er budd cyfiawnder. Os felly, caiff yr atgyfeiriad ei gyflwyno i Bwyllgor Priodoldeb i Ymarfer ar gyfer gwrandawriad yn unol â Rheol 11.
- (5) Bydd y Pwyllgor yn penderfynu a ddylid
- (a) cymeradwyo'r argymhelliad;
 - (b) gwrthod yr argymhelliad;
 - (c) torri yng nghanol y gweithrediadau er mwyn gofyn am ragor o dystiolaeth / dogfennau cyn gwneud penderfyniad.
- (6) Os yw'r Pwyllgor yn penderfynu cymeradwyo Gwaharddiad Gwirfoddol, bydd y Pwyllgor hefyd yn pennu'r cyfnod (na fydd yn llai na 2 flynedd gan ddechrau ar y dyddiad y daw'r gorchymyn i rym) cyn i'r person cofrestredig allu gwneud cais am benderfyniad ei fod yn gymwys i wneud cais arall i gofrestru.
- (7) Mae'n rhaid i berson sy'n dymuno cael ei aildderbyn i'r Gofrestr yn dilyn gorchymyn gwahardd wneud cais i CGA am benderfyniad yn unol â Rheol 36.
- (8) Os bydd Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer yn cymeradwyo argymhelliad y swyddog a awdurdodir yn briodol o dan Reol 9(4), caiff penderfyniad y Pwyllgor ei gyhoeddi'n gyhoeddus naill ai ar ddyddiad cyfarfod y Pwyllgor, neu ar ddyddiad diweddarach. Rhoddir gwybod i'r person cofrestredig am ddyddiad ac amser a lleoliad cyhoeddi'r penderfyniad os caiff ei gyhoeddi ar ddyddiad diweddarach.

- (9) Os yw'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r argymhelliad, ystyrir bod yr atgyfeiriad wedi'i derfynu.
- (10) Os yw'r Pwyllgor yn gwrthod cymeradwyo argymhelliad y swyddog a awdurdodir yn briodol, caiff yr achos ei drosglwyddo i Bwyllgor Priodoldeb i Ymarfer a gaiff ei sefydlu o'r newydd i'w glywed.
- (11) Bydd Rheolau 29 i 31 yn berthnasol i Gerydd Gwirfoddol a Gwaharddiad Gwirfoddol fel y mae'r Rheolau hynny'n berthnasol i orchmynion disgyblu a wneir yn dilyn gwrandawriad gerbron Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer.

4.0 Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer

11- (1) Bydd Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer:

- (a) yn penderfynu ar atgyfeiriadau a dderbynnir gan Bwyllgor Ymchwilio lle canfuwyd bod gan y person cofrestredig achos i'w ateb mewn perthynas ag:
- (i) ymddygiad proffesiynol annerbyniol;
 - (ii) anghymhwysedd proffesiynol difrifol; neu
 - (iii) euogfarn o drosedd berthnasol.
- (b) yn ystyried a ddylid gwneud gorchymyn disgyblu mewn perthynas â'r person cofrestredig hwnnw, ac os yw'n ystyried y dylid gwneud gorchymyn o'r fath, gwneud gorchymyn o'r fath lle bydd Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer yn ei ganfod yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol, neu o fod wedi cael ei euogfarnu o drosedd berthnasol.
- (c) Mewn perthynas ag argymhelliad a wneir gan y swyddog a awdurdodir yn briodol o dan Reol 9(5):
- (i) cymeradwyo neu wrthod yr argymhelliad;
 - (ii) gofyn am ragor o dystiolaeth / dogfennau cyn gwneud penderfyniad ynghylch caniatáu Cerydd Gwirfoddol neu Waharddiad Gwirfoddol.
- (d) penderfynu ar geisiadau o dan Reoliad 37, 39 neu 40 yn y Rheoliadau, neu faterion yn codi mewn perthynas â gorchmynion disgyblu o dan Reoliad 38 neu 41.

Rhybudd Gweithrediadau

12-(1) Pan fydd atgyfeiriad yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Priodoldeb i Ymarfer, bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn anfon Rhybudd Gweithrediadau at y person cofrestredig yn unol â pharagraff (2) drwy ddsbarthiad arbennig i'w gyfeiriad hysbys diwethaf fel y'i cofnodwyd ar y Gofrestr, neu'r fath gyfeiriad diweddaraf arall sy'n hysbys i CGA, gan roi iddynt o leiaf wyth wythnos o rybudd o'r gwrandawriad.

(2) Bydd y Rhybudd Gweithrediadau:

- (a) yn nodi ble y cynhelir gwrandawriad y Pwyllgor ac yn nodi enwau aelodau'r Pwyllgor;
 - (b) yn nodi amser a dyddiad y gwrandawriad, na fydd yn llai nag wyth wythnos ar ôl dyddiad anfon y Rhybudd at y person cofrestredig;
 - (c) yn nodi'r honiadau a manylion yr honiadau yn erbyn y person cofrestredig;
 - (d) yn nodi pwy fydd y tystion, os bydd rhai, y mae'r swyddog cyflwyno'n bwriadu eu galw i roi tystiolaeth yn y gwrandawriad;
 - (e) yn atodi bwndel yr achos;
 - (f) yn atodi copi o'r Gweithdrefnau a'r Rheolau hyn.
- (3) Bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn anfon copi o'r Rhybudd Gweithrediadau, fel y nodir ym mharagraff (2), at gyflogwr neu asiant y person cofrestredig ar yr adeg y cododd yr atgyfeiriad y gwrandawriad arno, ac at unrhyw gyflogwr neu asiant presennol.

Ymateb i'r Rhybudd Gweithrediadau

- 13-(1) Bydd y person cofrestredig, o fewn tair wythnos o ddyddiad y Rhybudd Gweithrediadau, yn darparu i CGA ymatebion ysgrifenedig i'r ymholiadau canlynol, sef:
- (a) a oes ganddo reswm, neu a yw'n gwybod am unrhyw reswm, pam na ellir cynnal y gwrandawriad, neu ran ohono, yn gyhoeddus;
 - (b) a yw'n bwriadu ymddangos yn bersonol a/neu gael ei gynrychioli yn y gwrandawriad ac os ydyw,
 - cadarnhau a yw'r person cofrestredig yn bwriadu rhoi tystiolaeth. Os ydyw, cadarnhau a yw'n bwriadu rhoi tystiolaeth ynghylch y ffeithiau, a/neu dystiolaeth liniaru;
 - rhoi i CGA enw a chyfeiriad cynrychiolydd y person cofrestredig. Os yw'r person cofrestredig yn bwriadu cael ei gynrychioli, cadarnhau hefyd a yw'n dymuno i ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r gweithrediadau gael eu hanfon ato a/neu at y cynrychiolydd;
 - cadarnhau, ar yr adeg mae'n ymateb, a yw'r person cofrestredig wedi'i gyflogi ai peidio ar y pryd fel ymarferydd addysg a reoleiddir gan CGA, ac, os ydyw, enw a chyfeiriad y cyflogwr neu'r asiantaeth gyflenwi bresennol.
 - (c) a yw'n cyfaddef y ffeithiau honedig, ac os ydyw, a yw'n cyfaddef yr honiad o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol, a/neu euogfarn o drosedd berthnasol, fel sy'n briodol;
 - (d) a yw'n bwriadu galw tystion; os ydyw, darparu eu henwau a'u manylion cyswllt; ac
 - (e) a yw'n gwybod am unrhyw reswm pam y gallai gwrthdaro buddiannau godi mewn perthynas ag unrhyw aelod o'r Pwyllgor, ac os felly, beth yw'r rheswm.

- (2) Bydd y person cofrestredig, yn unol â'r Rheol hon a Rheol 15, ac o leiaf bedair wythnos cyn y gwrandawriad, yn darparu i CGA unrhyw gyflwyniad ysgrifenedig neu ddogfennau o'r fath sy'n berthnasol yn ei dyb ef, gan gynnwys unrhyw ddatganiadau tystion.

Sylwadau i'r Pwyllgor

- 14-(1) Bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn penodi swyddog cyflwyno yn dilyn penderfyniad i gyflwyno atgyfeiriad i Bwyllgor Priodoldeb i Ymarfer.
- (2) Bydd y swyddog cyflwyno'n cyflwyno achos CGA gerbron Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer, a gallai person o'r fath fod yn swyddog o CGA neu'n gynrychiolydd arall.
- (3) Gallai'r person cofrestredig y cyflwynir honiad yn ei erbyn ymddangos yn bersonol neu gael ei gynrychioli gan unrhyw berson o'i ddewis, gan gynnwys cynrychiolydd cyfreithiol.

Cyflwyno ac archwilio dystiolaeth

- 15- (1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), pan fydd y swyddog cyflwyno neu'r person cofrestredig neu ei gynrychiolydd yn dymuno dibynnu ar unrhyw ddogfen, gan gynnwys datganiad tyst, bydd yn cyflwyno i CGA gopi o'r ddogfen dan sylw o leiaf bedair wythnos cyn y gwrandawriad, yn unol â Rheol 13(2).
- (2) Pan fydd naill ai'r swyddog cyflwyno neu'r person cofrestredig neu ei gynrychiolydd yn dymuno dibynnu yn y gwrandawriad ar ddogfennau neu dystiolaeth ffisegol arall ac nid yw'n briodol neu'n ymarferol i'r dystiolaeth honno gael ei chopio neu ei hanfon drwy'r post, bydd y parti sy'n meddu ar y ddogfen/dogfennau neu'r dystiolaeth ffisegol arall dan sylw yn darparu'r canlynol i CGA, o leiaf bedair wythnos cyn y gwrandawriad:
 - (a) disgrifiad o'r dystiolaeth;
 - (b) esboniad o'r rheswm pam nad yw'n ymarferol neu'n briodol i'r dystiolaeth neu gopi ohoni gael ei hanfon yn unol â pharagraff (1); a
 - (c) manylion y trefniadau y gellir eu gwneud i'r parti arall archwilio'r dystiolaeth honno.
- (3) Os yw'r swyddog cyflwyno neu'r person cofrestredig neu ei gynrychiolydd yn dymuno dibynnu yn y gwrandawriad ar unrhyw ddogfen nas cyflwynwyd yn unol â'r Rheol hon, yna dim ond yn ôl disgrisiwn y Pwyllgor y gellir derbyn y ddogfen honno. Wrth arfer y disgrisiwn hwn, gallai'r Pwyllgor hepgor neu newid y cyfnodau amser a nodir yn y Rheolau ar gyfer datgelu dogfennau, ond dim ond os yw'n fodlon ei bod yn briodol derbyn y ddogfen, a bod hyn er budd gwrandawriad teg.

Absenoldeb y person cofrestredig yn y gwrandawriad

- 16-(1) Pan na fydd y person cofrestredig yn mynychu nac yn cael ei gynrychioli mewn gwrandawriad, bydd y Cadeirydd:
 - (a) yn gofyn am dystiolaeth gan y swyddog cyflwyno bod y Rhybudd Gweithrediadau wedi'i anfon at y person cofrestredig i gydymffurfio â Rheol 12; ac

- (b) yn holi'r swyddog cyflwyno a oes unrhyw resymau dros absenoldeb y person cofrestredig wedi'u cyfleu i'r swyddog a awdurdodir yn briodol.
- (2) Pan na fydd y Pwyllgor yn fodlon y cydymffurfiwyd â Rheol 12, gallai'r Pwyllgor dorri yng nghanol y gwrandawriad.
 - (3) Pan fydd y Pwyllgor yn fodlon y cydymffurfiwyd â Rheol 12, yna ar ôl ystyried unrhyw sylwadau gan y swyddog cyflwyno ac unrhyw sylwadau ysgrifenedig a wnaed gan neu ar ran y person cofrestredig, a chan gymryd cyngor gan yr ymgynghorydd cyfreithiol, gallai'r Pwyllgor:
 - (a) fwrw ymlaen gyda'r gwrandawriad yn absenoldeb y person cofrestredig; neu
 - (b) torri yng nghanol y gwrandawriad.

Tystion

- 17-(1) Gallai CGA ofyn i unrhyw berson ddod i'r gwrandawriad a rhoi tystiolaeth, neu gynhyrchu dogfennau neu dystiolaeth berthnasol arall mewn unrhyw wrandawriad.
 - (2) Rhaid i dystion dyngu llw neu gadarnhau cyn rhoi tystiolaeth. Wrth wneud hynny, mae'r tyst yn gwneud addewid diffuant ynghylch gwirionedd ei dystiolaeth.
 - (3) Ac eithrio fel y penderfynir gan y Pwyllgor, ni chaiff tystion fod yn bresennol fel sylwedyddion yn y gwrandawriad hyd nes iddynt gwblhau rhoi tystiolaeth a chael eu rhyddhau'n ffurfiol gan y Cadeirydd.
 - (4) Gellir ailalw tystion yn ôl disgrisiwn y Pwyllgor.
 - (5) Gallai CGA dalu:
 - (a) treuliau rhesymol;
 - (b) costau rhesymol cyflogi ymarferydd addysg cyflenwi,
 mewn perthynas â thystion a elwir gan berson cofrestredig neu'r swyddog cyflwyno.
 - (6) Lle bydd tyst dros CGA yn gwrthod, neu'n methu'n fwriadol â bod yn bresennol neu gynhyrchu dogfen sy'n berthnasol i achos, gallai'r swyddog a awdurdodir yn briodol gael gwâs tyst drwy Orchymyn Llys.

Plant a thystion agored i niwed

- 18-(1) Caiff plentyn neu dyst agored i niwed roi tystiolaeth dim ond pan fydd y Pwyllgor yn penderfynu, ar ôl ystyried sylwadau gan neu ar ran y person cofrestredig a'r swyddog cyflwyno, neu fel y darperir ar ei gyfer ym mharagraffau (2) a (3), na fyddai lles y plentyn neu'r tyst agored i niwed yn cael ei niweidio drwy wneud hynny.

- (2) Cyn y gwrandawriad, lle bynnag y bo'n bosibl, gellir cyfeirio sylwadau ysgrifenedig at Gadeirydd Pwyllgor perthnasol sy'n eistedd ar y pryd, neu at un neu fwy o ddarpar aelodau'r Pwyllgor er mwyn iddynt eu hystyried.
- (3) Os bydd Cadeirydd, neu ddarpar aelod neu aelodau Pwyllgor perthnasol, o'r farn y byddai lles y plentyn neu'r tyst agored i niwed yn cael ei niweidio drwy roi tystiolaeth, bydd Cadeirydd neu aelod neu aelodau'r Pwyllgor, fel sy'n briodol, yn gwrthod rhoi caniatâd i'r plentyn neu'r tyst agored i niwed roi tystiolaeth.
- (4) Os bydd Cadeirydd, neu aelod neu aelodau'r Pwyllgor, fel sy'n briodol, yn penderfynu y dylid rhoi caniatâd i'r plentyn neu'r tyst agored i niwed roi tystiolaeth, yna bydd y Pwyllgor sy'n gwrandao ar yr achos yn mabwysiadu'r fath fesurau fel sy'n angenrheidiol yn eu tyb nhw fel y diogelir buddiannau'r plentyn neu'r tyst agored i niwed, a gallai hyn gynnwys y canlynol, er nad yw'n gyfyngedig i hyn:
 - (a) defnyddio cyswllt fideo;
 - (b) defnyddio tystiolaeth a recordiwyd ymlaen llaw fel prif dystiolaeth y tyst, ar yr amod bob amser bod tyst o'r fath ar gael yn y gwrandawriad i'w holi;
 - (c) defnyddio lladmeryddion (gan gynnwys cyfieithwyr iaith arwyddion a chyfieithwyr/cyfieithwyr ar y pryd);
 - (d) bod y Pwyllgor yn gwrandao ar y dystiolaeth yn breifat;
 - (e) bod cefnogwr tyst yn mynychu.
- (5) Gallai Cadeirydd y Pwyllgor gyfarwyddo na ddylid cyfeirio at blentyn neu dyst agored i niwed yn ôl ei enw yn ystod gwrandawriad ni waeth a gaiff ei alw i roi tystiolaeth yn y gwrandawriad ai peidio.

Tystiolaeth

- 19- (1) Yn ddarostyngedig i ofynion gwrandawriad teg, a pherthnasedd, gallai'r Pwyllgor ganiatáu tystiolaeth lafar, ddogfennol neu dystiolaeth arall p'un a fyddai'n dderbyniol mewn llys barn ai peidio;
- (2) Mae cyflwyno cofnod o rybuddiad yn dystiolaeth *prima facie* o gyflawni'r drosedd a arweiniodd at y rhybuddiad.
- (3) Bydd cyflwyno tystysgrif briodol gan lys yn y Deyrnas Unedig neu dramor o euogfarn o drosedd yn dystiolaeth bendant o gyflawni'r drosedd y mae'r dystysgrif yn cyfeirio ati.

laith

- 20-(1) Gall person cofrestredig y gwnaed atgyfeiriad mewn perthynas ag ef wneud cais ysgrifenedig i'r gwrandawriad gael ei gynnal (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) yn Gymraeg.
- (2) Pan fydd y person cofrestredig neu dyst yn dymuno rhoi tystiolaeth yn Gymraeg, caiff ganiatâd i wneud hynny ar yr amod y rhoddwyd o leiaf 21 diwrnod o rybudd o'r cais hwnnw i CGA.

Cyfeirio at Bwyllgor arall

- 21- (1) Cyn diwrnod cyntaf gwrandawriad gerbron Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer, neu cyn i Bwyllgor o'r fath wneud ei benderfyniad terfynol, gallai'r swyddog a awdurdodir yn briodol gyfeirio'r mater:
- (a) yn ôl at Bwyllgor Ymchwilio lle bydd y person cofrestredig neu ei gynrychiolydd, neu'r swyddog cyflwyno, yn cyflwyno tystiolaeth neu wybodaeth bellach i CGA, a allai fod wedi achosi i'r Pwyllgor Ymchwilio ystyried bod tystiolaeth neu wybodaeth bellach o'r fath, yn nhyb y swyddog a awdurdodir yn briodol, yn berthnasol i'r penderfyniad i gyflwyno'r atgyfeiriad i wrandawriad;
 - (b) at Bwyllgor Priodoldeb i Ymarfer sydd wedi'i sefydlu'n wahanol, pan ymddengys fod tor-reolau wedi bod mewn perthynas ag aelodaeth y Pwyllgor neu gyfiawnder naturiol (Atodiad).
- (2) Pan gaiff achos ei gyfeirio at Bwyllgor arall o dan baragraff (1)(a) neu (1)(b), bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn hysbysu'r partion fel sy'n briodol.

Safon a baich y prawf

- 22- (1) Safon y prawf a gymhwysir yn y gweithrediadau hyn yw'r safon sifil, sef 'yn ôl pwysau tebygolrwydd'.
- (2) Y swyddog cyflwyno fydd yn ysgwyddo baich y prawf.
 - (3) Ni fydd paragraff (2) yn berthnasol i unrhyw gais a wneir gan berson o dan Reol 32 a Rheol 34.

Rheoli'r achos cyn y gwrandawriad

- 23-(1) Pan fo'r swyddog cyflwyno, neu'r person cofrestredig, o'r farn y byddai o gymorth i rai materion gael eu penderfynu cyn gwrandawriad, caiff y naill neu'r llall wneud cais yn ysgrifenedig i'r swyddog a awdurdodir yn briodol am gyfarwyddiadau cyn gwrandawriad. Dylai'r person cofrestredig a'r swyddog cyflwyno geisio dod i gytundeb cyn gwneud cais am gyfarwyddiadau o'r fath.
- (2) Rhaid gwneud cais o'r fath yn ysgrifenedig i'r swyddog a awdurdodir yn briodol, fel arfer dim hwyrach na thair wythnos cyn diwrnod cyntaf y gwrandawriad.
 - (3) Pan dderbynnir cais ysgrifenedig, bydd swyddog a awdurdodir yn briodol o CGA yn ystyried rhestru achos am wrandawriad rheoli achos.
 - (4) Gallai'r cyfarwyddiadau gynnwys cynigion megis:
 - (a) lle mae dadleuon cyfreithiol rhagarweiniol i'w cyflwyno, a'r rhai na ellid eu datrys drwy ddull arall;
 - (b) mai plentyn yw tyst penodol, a/neu y dylid ei drin fel tyst agored i newid a dylid rhoi cyfarwyddiadau sy'n darparu ar gyfer mesurau arbennig ynghylch sut dylai eu tystiolaeth gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor yn y gwrandawriad (Rheol 18);

- (c) gwrandawriad ar y cyd (gweler Rheol 26);
 - (d) cael hyd i a/neu ddatgelu a/neu dderbynioldeb tystiolaeth benodol;
 - (e) terfynau amser i gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a gyhoeddir;
 - (f) unrhyw fater priodol arall a allai gynorthwyo i reoli'r achos yn deg ac yn effeithlon, os caiff ei benderfynu cyn gwrandawriad.
- (5) Bydd y Pwyllgor ar gyfer gwrandawriad rheoli achos yn cynnwys un neu dri aelod ac yn derbyn cyngor gan ymgynghorydd cyfreithiol. Lle y bo'n bosibl ac yn briodol, bydd yr un aelod(au) yn eistedd ar y pwyllgor sy'n cynnal y gwrandawriad llawn.
 - (6) Bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn anfon at y person cofrestredig a'i gynrychiolydd, rybudd o'r gwrandawriad rheoli achos o leiaf bum diwrnod gwaith cyn iddo gael ei gynnull.
 - (7) O leiaf dri diwrnod gwaith cyn y gwrandawriad rheoli achos, bydd y person cofrestredig, ei gynrychiolydd a'r swyddog cyflwyno, yn anfon dadl fras ac unrhyw ddogfennau perthnasol i ategu'r cynigion am gyfarwyddiadau at y swyddog a awdurdodir yn briodol. Bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn anfon copïau at y Pwyllgor.
 - (8) Gellir cynnal gwrandawriad rheoli achos drwy bresenoldeb personol y partiön, neu dros y ffôn neu fideo-gynhadledd.
 - (9) Disgresiwn y Cadeirydd fydd yn penderfynu ar y drefn yn y gwrandawriad rheoli achos.
 - (10) Cynhelir gwrandawriad rheoli achos yn breifat, oni bai bod y Pwyllgor yn rhoi cyfarwyddyd fel arall.
 - (11) Bydd y Cadeirydd yn gwahodd pob parti i wneud sylwadau mewn perthynas â'r cyfarwyddiadau a geisir, ac yn rhoi cyfle i'r parti arall ymateb.
 - (12) Y Pwyllgor fydd yn penderfynu ar y cyfarwyddiadau i'w rhoi.
 - (13) Bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn darparu i bob parti gofnod ysgrifenedig o'r cyfarwyddiadau o fewn saith diwrnod i'r gwrandawriad rheoli achos.
 - (14) Pan fydd parti'n methu â chydymffurfio â'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd mewn gwrandawriad rheoli achos, gallai'r Pwyllgor wneud pa bynnag benderfyniad sydd fwyaf priodol yn ei dyb ef mewn perthynas â derbynioldeb tystiolaeth neu unrhyw fater perthnasol arall.
 - (15) Ar unrhyw adeg yn ystod y gwrandawriad, gall y Pwyllgor yn y gwrandawriad llawn roi cyfarwyddiadau rheoli'r achos, neu dorri yng nghanol gwrandawriad i wrandawriad rheoli achos gael ei gynnal. Os bydd y Pwyllgor yn rhoi cyfarwyddyd y bydd gwrandawriad rheoli achos o'r fath yn cael ei gynnal, bydd hefyd yn rhoi cyfarwyddiadau ynghylch darparu unrhyw ddogfennau i'r swyddog a awdurdodir yn briodol, ac ni fydd paragraff (7) yn berthnasol.

Y drefn yn y gwrandawriad

- 24- (1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Rheol hon a Phleidleisio a gwneud penderfyniadau (Atodiad), caiff y drefn yn y gwrandawriad ei phenderfynu yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd.
- (2) Bydd y Cadeirydd yn sicrhau y bydd aelodau'r Pwyllgor sy'n bresennol yn cyflwyno eu hunain, yn cadarnhau enw'r person cofrestredig y cyflwynir yr honiadau yn ei erbyn ac unrhyw gynrychiolydd, ac yn gofyn am gadarnhad nad oes unrhyw wrthdrawiadau buddiannau.
- (3) Bydd y Cadeirydd yn holi a oes unrhyw geisiadau cychwynnol gan y person cofrestredig a'r swyddog cyflwyno.
- (4) Bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol, yn unol â chyfarwyddyd y Cadeirydd, yn darllen yr honiadau yn erbyn y person cofrestredig. Bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r person cofrestredig:
- (a) a yw'n cyfaddef ffeithiau'r honiadau, yn eu tro; ac, os ydyw,
- (b) a yw'n cyfaddef ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol a/neu ei fod wedi'i euogfarnu o drosedd berthnasol, fel sy'n briodol.
- (5) Caiff y swyddog cyflwyno ganiatâd i wneud datganiad agoriadol ynghylch yr honiadau a chaiff y person cofrestredig neu ei gynrychiolydd gyfle i ateb.
- (6) Gallai'r swyddog cyflwyno a'r person cofrestredig neu ei gynrychiolydd, gyflwyno tystiolaeth berthnasol, gan gynnwys galw tystion, yn ymwneud â ffeithiau'r honiadau ac a yw'r ffeithiau hynny'n gyfystyr ag ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol, a/neu euogfarn o drosedd berthnasol, fel sy'n briodol.
- (7) Gallai'r swyddog cyflwyno, y person cofrestredig neu ei gynrychiolydd ac aelodau'r Pwyllgor holi unrhyw dyst a elwir, gan gynnwys y person cofrestredig os bydd yn rhoi tystiolaeth.
- (8) Bydd y Cadeirydd yn caniatáu cyfle i'r swyddog cyflwyno a'r person cofrestredig, neu ei gynrychiolydd, grynhoi a chynnig crynodebau terfynol.
- (9) Bydd y Pwyllgor yn penderfynu a yw ffeithiau'r honiadau wedi'u profi.
- (10) Bydd y Pwyllgor yn penderfynu a yw'n fodlon ai peidio bod unrhyw ffeithiau sydd wedi'u profi'n gyfystyr ag ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol a/neu euogfarn o drosedd berthnasol, fel sy'n briodol, ni waeth a yw'r person cofrestredig wedi cyfaddef unrhyw beth mewn perthynas â hynny.
- (11) Gallai'r Pwyllgor dorri yng nghanol y gweithrediadau ar unrhyw adeg.
- (12) Gallai'r Pwyllgor benderfynu cyfeirio'r achos yn ôl at Bwyllgor Ymchwilio ar unrhyw adeg.
- (13) Wrth ddod i benderfyniad o dan Reol 29, bydd y Pwyllgor yn trafod yn breifat, a gallai drafod yn breifat mewn perthynas ag unrhyw fater arall.

- (14) Os bydd y Pwyllgor yn canfod bod ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol a/neu euogfarn o drosedd berthnasol, fel sy'n briodol, wedi'i sefydlu, bydd:
- (a) yn gwahodd y swyddog cyflwyno i ddarparu i'r Pwyllgor wybodaeth berthnasol am hanes blaenorol y person cofrestredig, gan gynnwys manylion unrhyw orchymyn disgyblu a wnaed gan CGA neu unrhyw gorff perthnasol arall;
 - (b) yn gwahodd y swyddog cyflwyno i ddarparu i'r Pwyllgor fanylion am hanes blaenorol y person cofrestredig gyda CGA neu wybodaeth berthnasol arall am hanes blaenorol y person cofrestredig;
 - (c) yn rhoi cyfle pellach terfynol i'r person cofrestredig neu ei gynrychiolydd, os yn bresennol, gyflwyno tystiolaeth ynglŷn â'i hanes neu ei gymeriad blaenorol neu amgylchiadau lliniarol. Pan gaiff y person cofrestredig neu unrhyw berson arall ei alw yn dyst, gallai'r swyddog cyflwyno a'r Pwyllgor holi'r tyst;
 - (d) yn rhoi'r cyfle i'r swyddog cyflwyno wneud sylwadau ynglŷn â'r gorchymyn disgyblu priodol (os oes un);
 - (e) yn rhoi'r cyfle i'r person cofrestredig neu ei gynrychiolydd gyflwyno sylwadau lliniarol ynglŷn â'r gorchymyn disgyblu priodol (os oes un).
- (15) Yn ddarostyngedig i ofynion gwrandawriad teg, gallai'r Pwyllgor, er budd cyfiawnder, ddiwygio honiad neu fanylion honiad ar unrhyw adeg cyn dod i'w ganfyddiadau ffeithiol.
- (16) Cyn diwygio honiad neu fanylion honiad yn unol â pharagraff (15), bydd y Pwyllgor yn gyntaf yn ystyried unrhyw sylwadau gan y swyddog cyflwyno a chan neu ar ran y person cofrestredig, ac yn cymryd cyngor gan yr ymgynghorydd cyfreithiol.
- (17) Caiff canlyniad y gwrandawriad ei gyhoeddi'n gyhoeddus.

Gwrandawriad cyhoeddus neu breifat

25 (1) Gallai'r Pwyllgor eithrio'r cyhoedd o wrandawriad neu unrhyw ran o wrandawriad:

- (a) pan fydd yn ymddangos ei bod er budd cyfiawnder i eithrio'r cyhoedd, ym marn y Pwyllgor;
 - (b) pan fydd y person cofrestredig y cynhelir gweithrediadau disgyblu yn ei erbyn yn gwneud cais ysgrifenedig i'r gwrandawriad gael ei gynnal yn breifat, ac o ystyried y rhesymau dros y cais, nid yw'r Pwyllgor o'r farn y byddai'n groes i fudd y cyhoedd i gynnal y gwrandawriad yn breifat; neu
 - (c) pan fydd angen diogelu buddiannau plant neu dystion agored i niwed.
- (2) Pan wneir cais i'r gwrandawriad gael ei gynnal yn breifat o dan Reol 24(3), bydd y Pwyllgor yn gwrandawrio ar y cais yn breifat, ond yn cyhoeddi'r penderfyniad yn gyhoeddus.

Gwrandawiadau ar y cyd

- 26 (1) Yn ddarostyngedig i ofynion gwrandawriad teg, gallai Pwyllgor ystyried honiadau yn erbyn dau neu fwy o bersonau cofrestredig mewn gwrandawriad ar y cyd, lle:
- (a) mae'r honiad yn erbyn pob person cofrestredig yn codi o'r un amgylchiadau a/neu'r un achos a atgyfeiriwyd; neu
 - (b) mae'r Pwyllgor o'r farn bod gwrandawriad ar y cyd yn briodol.
- (2) Lle cynigir gwrandawriad ar y cyd, bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn rhoi rhybudd o'r cynnig i'r person cofrestredig dan sylw neu ei gynrychiolwyr a gwahodd ei sylwadau ar y cynnig. Lle bydd gwrthwynebiad i wrandawriad ar y cyd gan neu ar ran un o'r personau cofrestredig, gallai swyddog a awdurdodir yn briodol ystyried rhestru'r achos am wrandawriad rheoli achos o dan Reol 23.

Gohirio, torri yng nghanol gwrandawriad ac ailddechrau gwrandawriad

- 27-(1) Cyn diwrnod cyntaf gwrandawriad gerbron y Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer, gallai'r swyddog a awdurdodir yn briodol ohirio'r gwrandawriad o'i wirfodd, neu yn sgil cais gan un o bartion y gweithrediadau, ar yr amod bod y ddau barti wedi cael cyfle i wneud sylwadau cyn i'r penderfyniad gael ei wneud. Caiff y penderfyniad i ohirio gwrandawriad ei gadarnhau'n ysgrifenedig gyda'r person cofrestredig, gyda chopi i'w gynrychiolydd, a bydd yn cynnwys rhesymau dros y penderfyniad.
- (2) Bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol, mor fuan ag sy'n ymarferol bosibl, yn hysbysu'r partion o ddyddiad y gwrandawriad wedi'i aildrefnu.
- (3) Pan fydd Pwyllgor yn torri yng nghanol gwrandawriad o dan Reol 24(11) ac yn penderfynu ailddechrau'r gwrandawriad, bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn hysbysu'r person cofrestredig a'i gynrychiolydd yn ysgrifenedig, gan nodi dyddiad y gwrandawriad wedi'i aildrefnu.

Swyddogaethau'r Pwyllgor mewn gwrandawiadau

- 28- (1) Ni fydd Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer yn gwrthod awdurdodaeth i wrando ar atgyfeiriad neu benderfynu arno ar sail unrhyw nam neu ddiffyg mewn unrhyw weithdrefn y gallai fod gofyn ei hystyried yn unig, neu fel arall:
- (a) cyn i honiad gael ei wneud i CGA, o dan unrhyw ofyniad heblaw o dan *Weithdrefnau a Rheolau Disgyblu 2021* CGA neu ddarpariaethau'r Ddeddf neu'r Rheoliadau; neu
 - (b) gan gyflogwr neu asiant neu unrhyw berson arall o dan delerau cyflogaeth neu gontract y person cofrestredig.

Penderfyniad

- 29-(1) Wrth wneud ei benderfyniad yn unol â Phleidleisio a gwneud penderfyniadau (Atodiad), bydd y Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer:

- (a) yn penderfynu a yw ffeithiau'r achos, yn gyfan neu'n rhannol, wedi'u profi;
- (b) os yw'r ffeithiau wedi'u cyfaddef neu eu profi, yn penderfynu a yw'r ffeithiau hynny'n gyfystyr ag ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol a/neu euogfarn o drosedd berthnasol, fel sy'n briodol.
- (2) Gallai'r Pwyllgor adolygu ei ganfyddiadau ffeithiol os yw'n fodlon bod angen gwneud hynny er mwyn cywiro camgymeriad amlwg, neu osgoi camweinyddiad cyfiawnder, a chyn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid gosod gorchymyn disgyblu.
- (3) Os yw'r Pwyllgor yn penderfynu bod y ffeithiau'n gyfystyr ag ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol a/neu euogfarn o drosedd berthnasol, bydd yn ystyried hanes blaenorol a chymeriad y person cofrestredig ac unrhyw amgylchiadau lliniarol yn unol â Rheol 24(14)(c).
- (4) Bydd y Pwyllgor yn penderfynu a ddylid cyflwyno gorchymyn disgyblu yn erbyn y person cofrestredig, ac os yn briodol, yn pennu telerau unrhyw orchymyn disgyblu. Bydd hyn ar un o'r ffurfiau canlynol:
- Cerydd;
 - Gorchymyn Cofrestru Amodol. Bydd hwn yn pennu'r holl amodau sy'n berthnasol i gyflogaeth y person cofrestredig fel ymarferydd y mae gofyn iddo gydymffurfio â hwy, ac mewn perthynas â phob amod, naill ai'r cyfnod y bydd mewn grym, neu ei fod mewn grym heb derfyn amser (fel sy'n briodol);
 - Gorchymyn Atal. Bydd hwn yn pennu'r cyfnod (heb fod yn fwy na dwy flynedd) cyn i'r person ddod yn gymwys eto i wneud cais arall i gofrestru. Gallai Gorchymyn Atal bennu amodau y mae'n rhaid i'r person y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef gydymffurfio â hwy cyn y gall ddod yn gymwys eto i wneud cais i gofrestru. Mae amod a bennir mewn Gorchymyn Atal mewn grym am y fath gyfnod fel y pennir, neu heb derfyn amser.
- Unwaith i'r Gorchymyn Atal ddod i ben, ar yr amod bod unrhyw amodau yn cael eu bodloni, bydd yn rhaid i'r person dan sylw wneud cais arall i gofrestru. Wrth wneud hynny, bydd yn destun gwiriadau cyn cofrestru sy'n ofynnol gan CGA ar yr adeg benodol honno;
- Gorchymyn Gwahardd. Bydd hwn yn pennu'r cyfnod (na fydd yn llai na dwy flynedd, yn dechrau ar y dyddiad y daw'r gorchymyn i rym) cyn i'r person allu gwneud cais am benderfyniad ei fod yn gymwys i wneud cais arall i gofrestru. Mae'n rhaid i berson sy'n dymuno cael ei aildderbyn i'r Gofrestr yn dilyn Gorchymyn Gwahardd wneud cais i CGA am benderfyniad yn unol â Rheol 36.
- Pe bai Pwyllgor yn caniatáu cais am gymhwystra o dan Reol 36, bydd yn rhaid i'r person dan sylw wneud cais arall i gofrestru. Wrth wneud hynny, bydd yn destun gwiriadau cyn gofrestru gan CGA ar yr adeg benodol honno;
- (5) Wrth benderfynu gosod gorchymyn disgyblu, gall y Pwyllgor hefyd benderfynu cymhwyso'r fath orchymyn i fwy nag un categori cofrestru, gan ddibynnu ym mha gategoriâu mae'r person wedi'i gofrestru ar yr adeg honno.

(6) Caiff canlyniad y gwrandawriad ei gyhoeddi'n gyhoeddus.

Hysbysu o'r penderfyniad

30-(1) Os ystyrir bod gorchymyn disgyblu'n briodol, bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol, drwy gyfarwyddyd y Pwyllgor:

- (a) yn cyhoeddi Hysbysiad o'r gorchymyn disgyblu i'r person y caiff ei gyflwyno mewn perthynas ag ef, gan gynnwys yr wybodaeth a nodir yn Rheoliad 36(3) o'r Rheoliadau; ac
- (b) yn cyhoeddi Hysbysiad o'r gorchymyn i gyflogwr neu asiant y person cofrestredig ar yr adeg y gwnaed yr atgyfeiriad, ac i unrhyw gyflogwr neu asiant presennol a/neu flaenorol, fel sy'n briodol,

o fewn cyfnod o bythefnos o'r diwrnod y cyhoeddir y penderfyniad yn gyhoeddus.

(2) Yn ategu'r penderfyniad ysgrifenedig bydd datganiad o'r canlynol:

- (a) yr honiadau;
- (b) y canfyddiadau ffeithiol; a
- (c) rhesymau'r Pwyllgor.

(3) Pan fydd Pwyllgor yn penderfynu, am resymau eithriadol, peidio â gwneud gorchymyn disgyblu mewn perthynas â pherson cofrestredig, ar ôl iddo benderfynu ar atgyfeiriad, bydd y Pwyllgor yn hysbysu'r person cofrestredig a chyflogwr neu asiant presennol y person cofrestredig, neu ei gyflogwr neu ei asiant blaenorol, o'i benderfyniad. Bydd yr hysbysiad hwn yn nodi rhesymau'r Pwyllgor dros beidio â gwneud gorchymyn disgyblu, ac a benderfynodd a brofwyd yr achos yn ei erbyn ai peidio.

(4) Pan nad yw Pwyllgor yn canfod bod y ffeithiau yn erbyn person cofrestredig wedi'u profi, bydd CGA, ar gais y person cofrestredig, yn cyhoeddi datganiad i'r perwyl hwnnw.

Cyhoeddi

31- (1) Rhaid i CGA gyhoeddi'r wybodaeth a nodir ym mharagraff (2) mewn perthynas â gorchymyn disgyblu, yn ddarostyngedig i'r eithriad ym mharagraff (3);

- (a) ar wefan a gynhelir ganddo ar y rhyngwrwyd am y cyfnod y mae'r gorchymyn i fod mewn grym neu am gyfnod o chwe mis, gan ddechrau ar y dyddiad y gosodir y gorchymyn; neu
- (b) yn y fath ffordd arall fel y gwêl yn addas.

(2) Dyma'r wybodaeth sydd i'w chyhoeddi:

- (a) enw'r person y gwneir y gorchymyn mewn perthynas ag ef, ac enw'r ysgol neu'r sefydliad yn y sector addysg bellach neu uwch lle y cyflogwyd y person ddiwethaf, neu, lle roedd y person wedi'i gyflogi ddiwethaf gan awdurdod lleol fel person

cofrestredig heblaw mewn ysgol neu sefydliad yn y sector addysg bellach neu uwch, enw'r awdurdod lleol hwnnw;

- (b) y math o orchymyn disgyblu; ac
 - (c) y dyddiad y gwnaed y gorchymyn disgyblu a'r dyddiad y daw i rym; ac
 - (d) am ba gyfnod y gwnaed y gorchymyn disgyblu a phryd y daw i rym (lle y'i nodir); ac
 - (e) a ganfuwyd bod y person yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol, a/neu euogfarn o drosedd berthnasol; a
 - (f) lle canfuwyd bod y person wedi'i euogfarnu o drosedd berthnasol, natur a dyddiad yr euogfarn dan sylw; neu
 - (g) lle canfuwyd bod y person wedi cael sancsiwn troseddol, ac eithrio euogfarn, a chanfuwyd ei fod yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol mewn perthynas â hynny, natur a dyddiad y sancsiwn hwnnw; neu
 - (h) lle canfuwyd bod y person yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu anghymhwysedd proffesiynol difrifol, arwydd o natur y camymddygiad neu'r anghymhwysedd a arweiniodd at wneud y gorchymyn.
- (3) Nid yw'r ddyletswydd i gyhoeddi'r wybodaeth ym mharagraff (2)(a) yn berthnasol lle'r ymddengys, ym marn CGA, fod angen peidio â'i chyhoeddi;
- (a) er budd cyfiawnder; neu
 - (b) er mwyn gwarchod buddiannau plant.

Cofnodi anylion gorchymynion disgyblu

32-(1) Bydd CGA yn cofnodi yn erbyn enw person cofrestredig ar y Gofrestr fanylion unrhyw orchymynion disgyblu a wneir.

Cais i amrywio neu ddiddymu amod mewn gorchymyn cofrestru amodol neu orchymyn atal sy'n pennu amodau

- 33-(1) Gallai person y gwnaed gorchymyn cofrestru amodol neu orchymyn atal sy'n pennu amodau mewn perthynas ag ef wneud cais i CGA i amrywio neu ddiddymu unrhyw amod a bennir yn y gorchymyn.
- (2) Gwneir cais o dan baragraff (1) yn ysgrifenedig a bydd yn nodi ar ba sail y mae'r person yn gofyn i unrhyw amod a bennir yn y gorchymyn gael ei amrywio neu ei ddiddymu, ac mae'n rhaid atodi pob dogfen y dibynnir arni i ategu'r cais.
 - (3) Pan fydd person yn gwneud cais i orchymyn gael ei amrywio neu ei ddiddymu, bydd CGA yn cynnal gwrandawriad yn unol â'r Gweithdrefnau a'r Rheolau hyn.

- (4) Bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn anfon at y person Rybudd Gweithrediadau drwy ddsbarthiad arbennig i'w gyfeiriad cofrestredig hysbys diwethaf, fel y'i cofnodwyd ar y Gofrestr, neu'r fath gyfeiriad diweddaraf arall sy'n hysbys i CGA a fydd:
- (a) yn nodi ble y cynhelir gwrandawriad y Pwyllgor ac enwau aelodau'r Pwyllgor;
 - (b) yn nodi amser a dyddiad y gwrandawriad; ac
 - (c) yn atodi copi o benderfyniad y Pwyllgor yn y gwrandawriad pan wnaed y gorchymyn cofrestru amodol neu'r gorchymyn atal.
- (5) Wrth ystyried y cais, bydd y Gweithdrefnau a'r Rheolau hyn yn gymwys fel sy'n briodol o ystyried rôl y Pwyllgor.
- (6) Pan fydd Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer wedi gwneud gorchymyn cofrestru amodol neu orchymyn atal sy'n pennu amodau y gwneir cais mewn perthynas ag ef o dan baragraff (1), caiff y cais ei benderfynu gan Bwyllgor Priodoldeb i Ymarfer arall na fydd yn cynnwys fel aelod ohono unrhyw berson a oedd yn aelod o'r Pwyllgor a wnaeth y gorchymyn.
- (7) Caiff canlyniad y gwrandawriad ei gyhoeddi'n gyhoeddus.
- (8) Os caiff cais i amrywio neu ddiddymu amod a bennir mewn gorchymyn disgyblu ei wrthod, ni all y person hwnnw gyflwyno unrhyw gais pellach i amrywio neu ddiddymu amod a bennir yn y gorchymyn hwnnw o fewn deuddeg mis calendr o'r dyddiad y penderfynwyd ar y cais gwreiddiol, neu o fewn terfyn amser arall fel y bydd y Pwyllgor yn penderfynu.

Cydymffurfio â gorchmynion cofrestru amodol a gorchmynion atal sy'n pennu amodau

- 34-(1) Pan fydd Pwyllgor wedi gwneud gorchymyn cofrestru amodol neu orchymyn atal sy'n pennu amodau mewn perthynas â pherson cofrestredig, gallai'r Pwyllgor fynnu bod y swyddog a awdurdodir yn briodol, ar unrhyw adeg, yn gofyn:
- (a) i'r person y cyflwynwyd y gorchymyn mewn perthynas ag ef;
 - (b) i unrhyw berson sydd, ar adeg gwneud y cais, yn gyflogwr neu'n asiant sy'n eu cyflogi yn rhinwedd swydd ymarferydd addysg,

am y fath dystiolaeth berthnasol fel y gall CGA benderfynu a gydymffurfiwyd ag amodau'r gorchymyn, neu a gydymffurfir ag amodau'r gorchymyn o hyd.

- (2) Pan fydd:
- (a) y swyddog a awdurdodir yn briodol yn derbyn gwybodaeth, ac mae o'r farn na chydymffurfiwyd â'r amodau; neu
 - (b) pan fydd y person yn methu â chydymffurfio â chais rhesymol a wnaed yn unol â pharagraff (1),

bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn cyfeirio'r mater at Bwyllgor Priodoldeb i Ymarfer na fydd yn cynnwys fel aelod ohono unrhyw berson a oedd yn aelod o'r Pwyllgor a wnaeth y

gorchymyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef. Bydd y Pwyllgor yn dod i benderfyniad ynghylch a yw'r person wedi methu â chydymffurfio â'r amod(au).

- (3) Ni fydd Pwyllgor yn gwneud gorchymyn o dan y Rheol hon heb wrandawriad pellach yn unol â'r Rheolau hyn.
- (4) Bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn anfon at y person Rybudd Gweithrediadau drwy ddsbarthiad arbennig i'w gyfeiriad cofrestredig, fel y'i cofnodwyd ar y Gofrestr, neu'r fath gyfeiriad diweddaraf arall sy'n hysbys i CGA a fydd:
 - (a) yn nodi ble y cynhelir gwrandawriad y Pwyllgor ac enwau aelodau'r Pwyllgor;
 - (b) yn nodi amser a dyddiad y gwrandawriad; ac
 - (c) yn atodi'r dystiolaeth a roddwyd yn y gwrandawriad pan wnaed y gorchymyn cofrestru amodol neu'r gorchymyn atal, ynghyd â chopi o'r penderfyniad a wnaed; ac
 - (d) yn nodi'r honiad yn nhermau is-baragraffau 2(a) neu 2(b) uchod.
- (5) Wrth ystyried y methiant honedig i gydymffurfio â'r amod(au), bydd y Gweithdrefnau a'r Rheolau hyn yn gymwys fel sy'n briodol o ystyried rôl y Pwyllgor.
- (6) Gallai Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer amrywio amod neu amodau pan fydd o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny.
- (7) Cyn amrywio amod neu amodau yn unol â pharagraff (6), bydd y Pwyllgor yn gyntaf yn ystyried unrhyw sylwadau gan y swyddog cyflwyno a chan neu ar ran y person cofrestredig, ac yn cymryd cyngor gan yr ymgynghorydd cyfreithiol.
- (8) Pan fydd Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer yn fodlon bod person y gwnaed gorchymyn cofrestru amodol neu orchymyn atal sy'n pennu amodau yn ei erbyn wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw rai neu bob un o'i amodau, gallai'r Pwyllgor wneud gorchymyn atal neu orchymyn gwahardd mewn perthynas â nhw.
- (9) Caiff canlyniad y gwrandawriad ei gyhoeddi'n gyhoeddus.

Cymhwystra i gofrestru yn dilyn gorchymyn gwahardd

- 35-(1) Gallai person y gwnaed gorchymyn gwahardd mewn perthynas ag ef wneud cais i CGA am benderfyniad ei fod yn gymwys i gofrestru o dan Reoliad 40(1) o'r Rheoliadau.
 - (2) Rhaid i gais o dan baragraff (1) fod yn ysgrifenedig a nodi ar ba sail y mae'r person yn gofyn am y penderfyniad, ac atodi pob dogfen y dibynnir arni i ategu'r cais.
 - (3) Pan fydd person yn gwneud cais i CGA am benderfyniad ei fod yn gymwys i gofrestru, bydd Pwyllgor yn cynnal gwrandawriad yn unol â'r Gweithdrefnau a'r Rheolau hyn.
 - (4) Bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn anfon at y person Rybudd Gweithrediadau drwy ddsbarthiad arbennig i'w gyfeiriad cofrestredig hysbys diwethaf, fel y'i cofnodwyd ar y Gofrestr, neu'r fath gyfeiriad diweddaraf arall sy'n hysbys i CGA a fydd:

- (a) yn nodi ble y cynhelir gwrandawriad y Pwyllgor ac enwau aelodau'r Pwyllgor;
 - (b) yn nodi amser a dyddiad y gwrandawriad; ac
 - (c) yn atodi copi o'r dystiolaeth a roddwyd, a phenderfyniad y Pwyllgor yn y gwrandawriad pan wnaed y gorchymyn gwahardd.
- (5) Wrth ystyried y cais, bydd y Gweithdrefnau a'r Rheolau hyn yn berthnasol fel sy'n briodol o ystyried rôl y Pwyllgor.
- (6) Bydd y Pwyllgor yn penderfynu a yw'n fodlon ai peidio bod y person yn addas i gael ei aildderbyn i'r Gofrestr.
- (7) Bydd y Pwyllgor, wrth wneud ei benderfyniad yn ystyried:
- (a) y rhesymau dros osod y gorchymyn gwahardd;
 - (b) y manylion sy'n ategu'r cais;
 - (c) a yw'r ymgeisydd wedi bod o gymeriad glân ers cyflwyno'r gorchymyn gwahardd; ac
 - (d) a yw'r ymgeisydd wedi dangos ei barodrwydd a'r gallu i lynu yn y dyfodol wrth y safonau ymddygiad a ddisgwylir gan berson cofrestredig, a/neu ei fod yn gallu dangos lefel o gymhwysedd nad yw'n disgyn yn is na'r hyn a ddisgwylir gan berson cofrestredig;
- (8) Caiff cais o dan baragraff (1) ei benderfynu gan Bwyllgor Priodoldeb i Ymarfer na fydd yn cynnwys fel aelod ohono unrhyw berson a oedd yn aelod o'r Pwyllgor a wnaeth y gorchymyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef.
- (9) Os yw'r Pwyllgor yn fodlon mewn perthynas â'r materion a nodir ym mharagraff (6) uchod, gallai benderfynu bod y person yn gymwys i gofrestru. Os mai dyma benderfyniad y Pwyllgor, bydd yn rhaid i'r person dan sylw wneud cais arall i gofrestru.
- (10) Caiff canlyniad y gwrandawriad ei gyhoeddi'n gyhoeddus.
- (11) Os caiff cais am benderfyniad bod y person yn gymwys i gofrestru ei wrthod, ni all y person hwnnw gyflwyno unrhyw gais pellach am benderfyniad ei fod yn gymwys i gofrestru o fewn deuddeg mis calendr o'r dyddiad y penderfynwyd ar y cais gwreiddiol, neu o fewn cyfnod hirach fel y gallai'r Pwyllgor benderfynu.

Adolygu gorchymynion disgyblu

- 36-(1) Gallai Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer, o'i wirfodd ac ar unrhyw adeg, ddiddymu gorchymyn disgyblu a wnaed gan Bwyllgor arall, pan:
- (a) mai'r unig neu'r prif reswm dros wneud y gorchymyn oedd bod y person y cyflwynwyd y gorchymyn mewn perthynas ag ef wedi'i euogfarnu o drosedd berthnasol, ac ar ôl dyddiad cyflwyno'r gorchymyn, y dilëwyd yr euogfarn dan sylw; neu

- (b) ar ôl i'r gorchymyn gael ei wneud, cafodd y Pwyllgor dystiolaeth na ystyriodd cyn iddo wneud y gorchymyn, ac mae'n fodlon na fyddai wedi'i wneud pe buasai'n ymwybodol o'r dystiolaeth cyn gwneud y gorchymyn.
- (2) Ni fydd Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer sy'n gwranddo ar achos o dan baragraff (1) yn cynnwys fel aelod ohono unrhyw berson a oedd yn aelod o'r Pwyllgor a wnaeth y gorchymyn.

Apeliadau

- 37-(1) Bydd gan unrhyw berson sy'n tybio iddynt gael cam gan benderfyniad Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer i osod gorchymyn disgyblu yr hawl i apelio yn erbyn y gorchymyn at yr Uchel Lys o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad y cyflwynir Hysbysiad o'r gorchymyn iddynt.

Gorchymynion disgyblu a wnaed gan gyrff eraill

- 38-(1) Bydd gorchymyn disgyblu a wnaed gan unrhyw Gyngor Addysgu Cyffredinol arall, neu Bwyllgor o'r Cynghorau hynny yn y Deyrnas Unedig, neu waharddiad a osodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, neu Waharddiad a wnaed gan y GDG, yn berthnasol mewn perthynas â Chymru fel y mae'n berthnasol mewn perthynas â'r gwledydd hynny.

5.0 Gorchymyn Atal Dros Dro Interim (GADDI)

- 39- (1) Yn unol â Gorchymyn 2021, lle caiff CGA ei hysbysu, ar unrhyw adeg, am honiadau yn erbyn person cofrestredig gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- (a) camymddygiad rhywiol difrifol; a/neu
- (b) achosi niwed corfforol, emosiynol neu feddyliol difrifol; a/neu
- (c) ymchwiliadau troseddol difrifol i fater sy'n destun pryder o ran diogelu,

gall un o swyddogion CGA a awdurdodir yn briodol ystyried y dylid gosod gorchymyn atal dros dro interim ar gofrestrriad yr ymarferydd.

- (2) Gall ystyriaeth o dan is-baragraff (1), mewn achosion sylweddol ddifrifol, gael ei gwneud:
- (a) er gwarchod y cyhoedd;
 - (b) fel arall er budd y cyhoedd.
- (3) Bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn trefnu gwrandawriad, ac yn anfon Rhybudd Gwrandawriad yn unol â pharagraff (4) trwy neges e-bost, os yw'r person cofrestredig yn gofyn am hynny neu drwy ddsbarthiad arbennig i gyfeiriad hysbys diwethaf y person cofrestredig fel y'i cofnodir ar y Gofrestr neu'r fath gyfeiriad diweddaraf arall sy'n hysbys i CGA, gan roi iddo o leiaf 10 diwrnod gwaith o rybudd o'r bwriad i wneud gorchymyn o'r fath.
- (4) Bydd y Rhybudd Gwrandawriad:
- (a) yn nodi dyddiad y gwrandawriad ac enwau aelodau'r Pwyllgor;

- (b) yn nodi natur yr honiadau yn erbyn y person cofrestredig;
 - (c) yn atodi copi o'r Gweithdrefnau a'r Rheolau hyn;
 - (d) yn gwahodd y person cofrestredig i gadarnhau a yw:
 - (i) yn cydsynio i Orchymyn Atal Dros Dro Interim gael ei osod;
 - (ii) yn dymuno i'r gwrandawriad gael ei gynnal yn gyhoeddus, yn hytrach nag yn breifat;
 - (iii) yn bwriadu ymddangos yn bersonol a/neu gael ei gynrychioli yn y gwrandawriad ac os ydyw, enw'r cynrychiolydd penodedig;
 - (iv) yn bwriadu cyflwyno sylwadau llafar, a/neu gyflwyno sylwadau ysgrifenedig cyn neu yn y gwrandawriad;
 - (v) ar adeg ymateb, yn gyflogedig fel ymarferydd addysg a reoleiddir gan CGA, ac, os ydyw, enw a chyfeiriad y cyflogwr presennol, neu'r asiantaeth gyflenwi bresennol.
 - (e) yn gwybod am unrhyw reswm pam y gallai gwrthdaro buddiannau godi mewn perthynas ag unrhyw aelod o'r Pwyllgor yn is-baragraff (4)(a), ac os gallai, beth yw'r rheswm.
- (5) Bydd y person cofrestredig yn darparu i CGA, cyn y gwrandawriad, unrhyw sylwadau ysgrifenedig neu unrhyw ddogfennau mae'n eu hystyried yn berthnasol, gan gynnwys unrhyw ddatganiadau gan dystion.

Gwrandawriad cyhoeddus neu breifat

- 40-(1) Cynhelir y gwrandawriad yn breifat, oni bai bod cais yn cael ei wneud gan y person cofrestredig o dan Reol 39(4)(d)(ii), a bod y Pwyllgor yn penderfynu bwrw ymlaen yn gyhoeddus. Gallai'r Pwyllgor eithrio'r cyhoedd o wrandawriad neu unrhyw ran o wrandawriad:
- (a) os ymddengys i'r Pwyllgor fod eithrio'r cyhoedd yn angenrheidiol er budd cyfiawnder;
 - (b) os yw'n angenrheidiol i warchod buddiannau plant neu dystion agored i niwed.

Cyfarfod o'r Pwyllgor Gorchymyn Atal Dros Dro Interim

- 41 - (1) Yn amodol ar ddarpariaethau'r Rheol hon a Phleidleisio a gwneud penderfyniadau (Atodiad), penderfynir ar y drefn yn y cyfarfod yn unol â disgresiwn y Cadeirydd.
- (2) Wrth wneud ei benderfyniad, bydd y Pwyllgor yn trafod yn breifat a chaiff drafod yn breifat mewn perthynas ag unrhyw fater arall.
 - (3) Bydd y Pwyllgor yn cael ei gynghori gan ymgynghorydd cyfreithiol.

- (4) Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod aelodau'r Pwyllgor yn cyflwyno eu hunain, yn cadarnhau enw'r person cofrestredig y gwneir yr honiadau yn ei erbyn, ac enw unrhyw gynrychiolydd, ac yn gofyn am gadarnhad nad oes unrhyw wrthdrawiadau buddiannau.
- (5) Ar ôl clywed unrhyw sylwadau gan y Swyddog Cyflwyno a'r person cofrestredig, a/neu ei gynrychiolydd, bydd y Pwyllgor yn penderfynu a ddylid:
- (a) cymeradwyo'r argymhelliad i osod y gorchymyn atal dros dro interim;
 - (b) gwrthod yr argymhelliad;
 - (c) torri yng nghanol y gwrandawriad er mwyn gofyn dystiolaeth, dogfennau neu ddatganiadau pellach cyn gwneud penderfyniad.
- (6) Wrth wneud ei benderfyniad o dan is-baragraff (5), bydd y Pwyllgor yn ystyried a yw'n fodlon bod gorchymyn atal dros dro interim yn angenrheidiol:
- (a) er gwarchod y cyhoedd a/neu;
 - (b) fel arall er budd y cyhoedd.
- (7) Pan fydd y Pwyllgor yn cymeradwyo'r argymhelliad o dan is-baragraff (5)(a), bydd cofrestriad y person cofrestredig gyda CGA, yn y categori neu gategorïau cofrestru sy'n berthnasol, yn cael ei ddileu dros dro am y cyfnod a bennir gan y Pwyllgor, hyd at uchafswm o 18 mis.
- (8) Effaith y gorchymyn atal dros dro interim yw:
- (a) y bydd y cyn-berson cofrestredig yn peidio â bod, dros dro, yn 'berson cofrestredig' o fewn yr ystyr a nodir yn nogfen *Gweithdrefnau a Rheolau Disgyblu CGA, a Deddf Addysg (Cymru) 2014*, fel y'i diwygiwyd, ac na fydd yn gallu cyfeirio ato ei hun yn y fath fodd am gyfnod y gorchymyn atal dros dro interim; ac
 - (b) **na fydd** yn ymddangos ar y Gofrestr gyhoeddus o Ymarferwyr Addysg fel 'person cofrestredig' mewn unrhyw gategori cofrestru yr oedd wedi'i gofrestru ynddo.
- (9) Pan fydd y Pwyllgor yn cymeradwyo'r argymhelliad o dan is-baragraff (5)(a), bydd y Pwyllgor hefyd:
- (a) yn pennu cyfnod y gorchymyn atal dros dro interim na fydd, yn unol ag is-baragraff (7), yn fwy na 18 mis;
 - (b) yn ddarostyngedig i Reol 45(1), yn pennu amserlen ar gyfer adolygu'r gorchymyn atal dros dro interim.
- (10) Caiff cyn-berson cofrestredig sy'n dymuno gofyn am adolygiad o'r gorchymyn atal dros dro interim wneud hynny yn unol â Rheol 44.

Absenoldeb y person cofrestredig yn y gwrandawriad

42-(1) Pan nad yw'r person cofrestredig yn bresennol, ac nad yw'n cael ei gynrychioli yn y gwrandawriad, bydd y Cadeirydd:

- (a) yn gofyn am dystiolaeth gan y Swyddog Cyflwyno bod y Rhybudd Gwrandawriad wedi cael ei anfon at y person cofrestredig mewn cydymffurfiaeth â Rheol 39; ac
 - (b) yn holi'r Swyddog Cyflwyno a yw unrhyw resymau am absenoldeb y person cofrestredig wedi cael eu cyfleu i'r swyddog a awdurdodir yn briodol.
- (2) Pan nad yw'r Pwyllgor yn fodlon y cydymffurfiwyd â Rheol 39, caiff y Pwyllgor dorri yng nghanol y gwrandawriad.
- (3) Pan fydd y Pwyllgor yn fodlon y cydymffurfiwyd â Rheol 39, yna ar ôl cymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau gan y Swyddog Cyflwyno ac unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan neu ar ran y person cofrestredig, a chael cyngor gan yr ymgynghorydd cyfreithiol, gallai'r Pwyllgor:
- (a) fwrw ymlaen â'r gwrandawriad yn absenoldeb y person cofrestredig; neu
 - (b) dorri yng nghanol y gwrandawriad.

Hysbysiad penderfyniad

43-(1) Os yw'r Pwyllgor yn penderfynu bod gorchymyn atal dros dro interim yn briodol, bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol:

- (a) yn cyflwyno hysbysiad o'r gorchymyn atal dros dro interim i'r person y'i gwneir mewn perthynas ag ef, a bydd yn cynnwys yr wybodaeth a nodir yn Erthygl 8 o Orchymyn 2021; ac
- (b) yn cyflwyno hysbysiad o'r gorchymyn atal dros dro interim i gyflogwr neu asiant presennol neu flaenorol y person cofrestredig,

cyn pen 3 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y gwneir y gorchymyn atal dros dro interim.

(2) Bydd yr hysbysiad yn cadarnhau:

- (a) testun y gorchymyn atal dros dro interim;
- (b) disgrifiad o effaith y gorchymyn atal dros dro interim;
- (b) rhesymau'r Pwyllgor dros wneud y gorchymyn atal dros dro interim;
- (c) esboniad o hawl y cyn-berson cofrestredig i ofyn am i'r swyddog a awdurdodir yn briodol gynnull gwrandawriad i adolygu'r gorchymyn atal dros dro interim yn unol â Rheol 44; ac
- (d) esboniad o hawl y cyn-berson cofrestredig i apelio i'r Uchel Lys yn erbyn y gorchymyn atal dros dro interim cyn pen cyfnod o 28 o ddyddiau, gan ddechrau ar y dyddiad y cyflwynir yr hysbysiad o'r gorchymyn atal dros dro interim i'r cyn-berson cofrestredig, yn unol â Rheol 47(1).

- (3) Dyddiad effaith y gorchymyn atal dros dro interim fydd y dyddiad y caiff yr hysbysiad o dan is-baragraff (1)(a) ei gyflwyno i'r cyn-berson cofrestredig, neu unrhyw ddyddiad arall y mae CGA yn penderfynu arno.

Cais am adolygiad

- 44-(1) Caiff cyn-berson cofrestredig, y gwnaed gorchymyn atal dros dro interim yn ei erbyn, ofyn i CGA adolygu'r gorchymyn atal dros dro interim:
- (a) cyn i 6 mis ddod i ben ar ôl dyddiad y gorchymyn atal dros dro interim, neu benderfyniad yr Uchel Lys i ymestyn y gorchymyn atal dros dro interim neu ei ymestyn ymhellach o dan Reol 47(2);
 - (b) wedi hynny, cyn i gyfnod adolygu dilynol o 6 mis ddod i ben;
 - (c) ar unrhyw adeg os bydd tystiolaeth newydd ar gael sy'n berthnasol i'r achos, neu os oes newid sylweddol mewn amgylchiadau ers i'r gorchymyn atal dros dro interim gael ei wneud.
- (2) Rhaid i gais o dan is-baragraffau (1)(a), (b) neu (c):
- (a) gael ei gyflwyno'n ysgrifenedig;
 - (b) nodi ar ba sail y mae'r cyn-berson cofrestredig yn gwneud cais i'r gorchymyn atal dros dro interim gael ei adolygu;
 - (c) cael ei gyflwyno ynghyd â'r holl ddogfennau y dibynnir arnynt i gefnogi'r cais; ac
 - (d) yn achos cais o dan is-baragraff 1(c), nodi'r dystiolaeth newydd a/neu'r newid sylweddol mewn amgylchiadau y dibynnir arni/arno.
- (3) Pan wneir y cais o dan is-baragraff 1(a) neu (b), bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn trefnu gwrandawriad cyn i'r cyfnod perthnasol o 6 mis ddod i ben.
- (4) Pan wneir y cais o dan is-baragraff 1(c), bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol, os yw'n fodlon bod tystiolaeth newydd a/neu newid sylweddol mewn amgylchiadau yn bodoli, yn trefnu gwrandawriad cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r cais ddod i law.
- (5) Os trefnir gwrandawriad o dan baragraff (3) neu (4), bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn anfon Hysbysiad Gwrandawriad Adolygu yn unol â pharagraff (6) trwy e-bost, os yw'r cyn-berson cofrestredig yn gofyn am hynny, neu drwy ddsbarthiad arbennig i gyfeiriad hysbys diwethaf y cyn-berson cofrestredig fel y'i cofnodir ar y Gofrestr, neu'r fath gyfeiriad diweddaraf arall sy'n hysbys i CGA.
- (6) Bydd yr Hysbysiad Gwrandawriad Adolygu:
- (a) yn nodi dyddiad y gwrandawriad adolygu ac enwau aelodau'r Pwyllgor;
 - (b) yn atodi'r holl ddogfennau y dibynnir arnynt i gefnogi'r cais;

- (c) lle y bo'n briodol, yn nodi'r dystiolaeth newydd neu'r newid sylweddol mewn amgylchiadau mae'r cyn-berson cofrestredig yn dibynnu arni/arno;
- (d) yn atodi copi o'r Gweithdrefnau a'r Rheolau hyn:
- (e) yn gwahodd y cyn-berson cofrestredig i gadarnhau a yw:
 - (i) yn dymuno i'r gwrandawriad adolygu gael ei gynnal yn gyhoeddus yn hytrach nag yn breifat;
 - (ii) yn bwriadu ymddangos yn bersonol a/neu gael ei gynrychioli yn y gwrandawriad adolygu ac os ydyw, enw'r cynrychiolydd penodedig;
 - (iii) yn bwriadu cyflwyno sylwadau llafar, a/neu gyflwyno sylwadau ysgrifenedig cyn neu yn y gwrandawriad adolygu;
- (f) yn gwybod am unrhyw reswm pam y gallai gwrthdaro buddiannau godi mewn perthynas ag unrhyw aelod o'r Pwyllgor yn is-baragraff (6)(a), ac os gallai, beth yw'r rheswm.

Adolygiad gan CGA

- 45-(1) Bydd CGA, yn ychwanegol at yr amserlen adolygu a bennir gan Bwyllgor o dan Reol 41(9), yn adolygu'r gorchymyn atal dros dro interim ar unrhyw adeg os bydd tystiolaeth newydd ar gael sy'n berthnasol i'r achos, neu os oes newid sylweddol mewn amgylchiadau ers i'r gorchymyn atal dros dro interim gael ei wneud.
- (2) At ddiben cyflawni adolygiad wedi'i drefnu a bennwyd gan Bwyllgor o dan Reol 41(9), neu adolygiad o dan baragraff (1) o'r Rheol hon, bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn anfon Rhybudd Gwrandawriad Adolygu yn unol â pharagraff (3) trwy e-bost, pan fydd y cyn-berson cofrestredig yn gofyn am hynny, neu drwy ddogfen arbennig i gyfeiriad hysbys diwethaf y cyn-berson cofrestredig fel y'i cofnodir ar y Gofrestr, neu'r fath gyfeiriad diweddaraf arall sy'n hysbys i CGA.
- (3) Bydd y Rhybudd Gwrandawriad Adolygu:
 - (a) yn nodi dyddiad y gwrandawriad adolygu ac enwau aelodau'r Pwyllgor;
 - (b) yn atodi'r holl ddogfennau sydd i gael eu hystyried gan y Pwyllgor;
 - (c) lle y bo'n briodol, yn nodi'r dystiolaeth newydd neu'r newid sylweddol mewn amgylchiadau mae CGA yn dibynnu arni/arno;
 - (d) yn atodi copi o'r Gweithdrefnau a'r Rheolau hyn;
 - (e) yn gwahodd y cyn-berson cofrestredig i gadarnhau a yw:
 - (i) yn cydsynio i'r gorchymyn atal dros dro interim barhau ar y sail a nodir yn y Rhybudd Gwrandawriad Adolygu;

- (ii) yn dymuno i'r gwrandawriad adolygu gael ei gynnal yn gyhoeddus, yn hytrach nag yn breifat;
- (iii) yn bwriadu ymddangos yn bersonol a/neu gael ei gynrychioli yn y gwrandawriad adolygu ac os ydyw, enw'r cynrychiolydd penodedig;
- (iv) yn bwriadu cyflwyno sylwadau llafar, a/neu gyflwyno sylwadau ysgrifenedig cyn neu yn y gwrandawriad adolygu;
- (v) yn gwybod am unrhyw reswm pam y gallai gwrthdaro buddiannau godi mewn perthynas ag unrhyw aelod o'r Pwyllgor yn is-baragraff (3)(a), ac os gallai, beth yw'r rheswm.

(4) Ar ôl adolygu'r gorchymyn o dan y Rheol hon, neu o dan Reol 41(9), caiff CGA:

- (a) ddiddymu'r gorchymyn atal dros dro interim;
- (b) peidio â gwneud unrhyw newid i'r gorchymyn atal dros dro interim; neu
- (c) os oes gofyniad i wneud hynny, gwneud cais i'r Uchel Lys i ymestyn y gorchymyn atal dros dro interim neu ei ymestyn ymhellach am gyfnod sy'n hwy na 18 mis yn unol â Rheol 47(2).

Hysbysiad o benderfyniad yr adolygiad

46-(1) Bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn cyflwyno hysbysiad o benderfyniad yr adolygiad, a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw, i'r cyn-berson cofrestredig cyn pen 3 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y gwneir y penderfyniad.

Yr Uchel Lys

47-(1) Yn unol â Rheol 43(2)(d), caiff cyn-berson cofrestredig y mae gorchymyn atal dros dro interim wedi ei wneud mewn cysylltiad ag ef apelio yn erbyn y gorchymyn i'r Uchel Lys o fewn cyfnod o 28 diwrnod gan ddechrau ar y dyddiad y cyflwynir hysbysiad o'r gorchymyn atal dros dro interim i'r cyn-berson cofrestredig.

(2) Os yw CGA o'r farn y dylid ymestyn gorchymyn atal dros dro interim am gyfnod sy'n hwy na 18 mis yn unol â Rheol 45(4)(c), rhaid iddo wneud cais i'r Uchel Lys am estyniad, neu estyniad pellach, o'r fath.

Diddymu

48-(1) Bydd effaith gorchymyn atal dros dro interim yn dod i ben:

- (a) os yw CGA, cyn cynnal ymchwiliad o dan y Rheolau hyn, yn penderfynu nad oes achos i'w ateb mewn perthynas â'r gorchymyn atal dros dro interim arfaethedig;
- (b) os yw CGA yn terfynu ymchwiliad i'r ymddygiad sy'n destun y gorchymyn atal dros dro interim;

- (c) os yw CGA wedi gwneud penderfyniad ynghylch a yw am osod gorchymyn disgyblu o dan Reol 29 ai peidio;
- (d) os yw CGA, yn dilyn adolygiad o dan Reol 44 neu Reol 45, yn penderfynu bod y gorchymyn atal dros dro interim a wnaed o dan Reol 41 i gael ei ddiddymu; neu
- (e) os yw'r Uchel Lys yn penderfynu diddymu'r gorchymyn atal dros dro interim o dan Reol 47(1) neu Reol 47(2).

Atodiad - Cyfansoddiad a chyfarfodydd

Aelodau pwyllgorau

- (1) Mae'r pwyntiau canlynol yn ymwneud â Phwyllgor Ymchwilio, y Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer a'r Pwyllgor Gorchymyn Atal Dros Dro Interim.
- (2) Bydd Pwyllgor yn cynnwys tri pherson ar y lleiaf a phum person ar y mwyaf. Y cworwm ar gyfer cyfarfod o'r Pwyllgor fydd tri ac mae'n rhaid i hyn gynnwys:
 - (a) un neu ragor o aelodau lleig;
 - (b) un neu ragor o bersonau cofrestredig yn o leiaf un categorïau cofrestru.
- (3) Wrth sefydlu Pwyllgor, bydd CGA yn ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth, ei Gynllun Iaith Gymraeg statudol ac unrhyw safonau sy'n benodol gymwys i CGA yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011:
- (4) Pan fydd Pwyllgor yn ystyried atgyfeiriad a phan fydd aelod:
 - (a) yn amharod; neu
 - (b) yn methu â bod yn aelod bellach,

ac nad oes cworwm mwyach, bydd achos yr atgyfeiriad yn cael ei dorri yng nghanol y gweithrediadau a chaiff Pwyllgor newydd ei benodi i ymchwilio neu wrando ar yr atgyfeiriad.
- (5) Ni chaniateir i berson sy'n aelod o'r Pwyllgor Ymchwilio sy'n ymchwilio i atgyfeiriad gael ei benodi'n aelod o unrhyw Bwyllgor Priodoldeb i Ymarfer dilynol sy'n gwrandao ar yr atgyfeiriad hwnnw.
- (6) Ni chaniateir i berson sy'n aelod o'r Pwyllgor Gorchymyn Atal Dros Dro Interim gael ei benodi'n aelod o unrhyw Bwyllgor Ymchwilio na Phwyllgor Priodoldeb i Ymarfer dilynol sy'n gwrandao ar yr atgyfeiriad hwnnw.
- (7) Wrth ystyried atgyfeiriad, pan fydd unrhyw aelod o Bwyllgor o'r farn y gallai sylwedydd teg a gwybodus dybio fod ganddo wrthdrawiad buddiannau, bydd yr aelod hwnnw'n gwneud datganiad yn unol â hynny. Gallai hyn arwain, yn dilyn cyngor cyfreithiol, at ddiarddel yr aelod rhag eistedd ar y Pwyllgor mewn perthynas â'r atgyfeiriad hwnnw.

- (8) Yn unol â pharagraff (6), pan fydd aelod o'r Pwyllgor yn perthyn i'r un undeb neu gymdeithas broffesiynol â'r person cofrestredig, ni fydd hynny ynddo'i hun yn gyfystyr â gwrthdrawiad buddiannau at ddibenion y Rheol hon.

Cadeiryddion

- (1) Bydd Cadeirydd i bob Pwyllgor.
- (2) Yn absenoldeb y Cadeirydd a benodir o dan baragraff (1), bydd y Pwyllgor yn penodi rhywun arall o blith ei aelodau i weithredu fel y Cadeirydd.

Cyfarfodydd

- (1) Caiff Pwyllgor ei gynnull ar unrhyw adeg ac mewn unrhyw leoliad fel sy'n briodol yn nhyb swyddog a awdurdodir yn briodol.
- (2) Caiff swyddogion CGA:
- (a) fod yn bresennol ym mhob cyfarfod Pwyllgor;
 - (b) ond ni chânt gymryd rhan wrth i Bwyllgor ddod i'w benderfyniad.

Pleidleisio a gwneud penderfyniadau

- (1) Caiff unrhyw benderfyniad ei wneud gan Bwyllgor drwy bleidlais gan aelodau'r Pwyllgor hwnnw.
- (2) Caiff unrhyw gwestiwn a aiff i bleidlais Pwyllgor ei gyflwyno ar ffurf cynnig drwy law Cadeirydd y Pwyllgor.
- (3) Ni chaiff unrhyw aelod sy'n bresennol mewn cyfarfod Pwyllgor ymatal rhag pleidleisio pan aiff unrhyw gwestiwn i bleidlais.
- (4) Pan aiff cwestiwn i bleidlais, bydd y Cadeirydd:
- (a) yn galw ar yr aelodau i bleidleisio o blaid neu yn erbyn y cynnig; ac
 - (b) yn datgan a yw'r cynnig wedi'i gario neu a yw'n syrthio, fel sy'n briodol.
- (5) Pan fydd nifer y pleidleisiau ar gyfer unrhyw gynnig yn gyfartal, ystyrir bod y cynnig wedi'i ddatrys o blaid y person cofrestredig.

Ymgynghorydd cyfreithiol neu ymgynghorydd proffesiynol arall

- (1) Bydd CGA yn cynnig i unrhyw Bwyllgor a sefydlir o dan y Gweithdrefnau a'r Rheolau hyn wasanaethau unrhyw ymgynghorydd cyfreithiol a/neu ymgynghorydd proffesiynol arall fel sy'n ofynnol, i weithredu fel ymgynghorydd yn ystod cyfarfod neu wrandawriad.
- (2) Pan fydd angen cyngor cyfreithiol a/neu gyngor proffesiynol arall ar Bwyllgor a ddarperir iddo gan yr ymgynghorydd cyfreithiol a/neu'r ymgynghorydd proffesiynol arall y mae CGA yn

cynnig ei wasanaethau, bydd yr ymgynghorydd cyfreithiol a/neu'r ymgynghorydd proffesiynol arall a benodir:

- (a) yn achos Pwyllgor Ymchwilio a Phwyllgor Gorchymyn Atal Dros Dro Interim, yn gwneud datganiad ysgrifenedig mewn perthynas â natur y cyngor a geisiwyd ac a gafwyd gan y Pwyllgor;
 - (b) yn achos Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer, yn gwneud datganiad ysgrifenedig mewn perthynas â natur y cyngor a geisiwyd ac a gafwyd gan y Pwyllgor, ac yn datgan yn gyhoeddus natur y cyngor a geisiwyd ac a gafwyd gan y Pwyllgor.
- (3) Ni fydd yr ymgynghorydd cyfreithiol na/neu'r ymgynghorydd proffesiynol arall yn berson sydd wedi annerch y Pwyllgor yn flaenrol mewn perthynas ag atgyfeiriad y mae'r Pwyllgor yn gofyn am gyngor yn ei gylch mewn unrhyw rôl heblaw fel ymgynghorydd cyfreithiol neu ymgynghorydd proffesiynol arall.